

Yr Oruchwyliaeth Newydd

gan Ieuan Griffiths

YR ORUCHWYLIAETH
NEWYDD

DRAMA DAIR ACT

GAN

IEUAN GRIFFITHS

(Awdur "Dirgel Ffyrdd" ac "Awel Dro")



MCMXXXVII

Argraffiad Cyntaf—Gorffennaf, 1937

*Am ganiatdd i chwarae'r ddrama hon, ymofynner â
Gwasg Aberystwyth, 33 North Parade, Aberystwyth*

Argraffwyd yng Ngwasg Gee, Dinbych

Chwareuwyd y ddrama hon gyntaf gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg, Abertawe, yn y *Grand Theatre*, Abertawe, Mawrth 17, 1937.

CYMERIADAU

| | |
|----------------------------|-----------------------|
| <i>Enoc Jenkins</i> | D. T. Johns |
| <i>Mari Hughes</i> | Hannah Evans |
| <i>Ifan Hughes</i> | W. L. Johns |
| <i>Gwilym</i> | R. Ellis Grey |
| <i>Owen Bevan</i> | W. George David |
| <i>Howells</i> | J. Talbot Thomas |
| <i>Morfudd</i> | Beti Thomas |
| <i>Hopkins</i> | T. J. Williams-Hughes |
| <i>Agnes Hopkins</i> | Mari Hughes |
| <i>Wat</i> | W. Llŵchwr Rees |

Cynhyrhydd: Miss Mary Hughes.

CYMERIADAU

ENOC JENKINS, hen ŵr tua 75 oed

MARI HUGHES, ei ferch

IFAN HUGHES, ei gŵr

GWILYM HUGHES, eu mab

OWEN BEVAN, ŵyr arall i ENOC

HOWELLS yf *Emporium*

MORTUDD, ei ferch

HOPKINS y *Bookie*

AGNES HOPKINS, ei wraig

WAT

*Cymeriadau a digwyddiadau dychmygol
sydd yn y ddrama hon i gyd.*

GOLYGFA

Cegin gweithiwr cyffredin yn yr ardaloedd diwydiannol, wedi bod allan o waith am rai blynyddoedd, yw'r olygfa drwy'r holl chwarae. Y mae popeth yn yr ystafell wedi gweld ei amser gorau, ond y mae sglein ar bopeth a eill ddisgleirio trwy gymorth clwtyn a phenelin. Y mae dau ddrws yn arwain o'r ystafell: un yn y cefn ar y chwith (o safbwynt yr actorion) yn arwain i'r cegin fach ac i'r ardd, ac un arall ar y dde yn arwain i ddrws y ffrynt. Ceir bwrdd ar y canol, a dwy neu dair stôl o'i amgylch, a chadair freichiau yn ymyl y lle tân ar y chwith. Ar y dde, ceir sofffa hen-ffasiwn a dreser yn y cefn. Dyna'r unig ddodrefn sy'n angenrheidiol i'r chwarae, ond dylid cael rhagor o'r pethau hynny a geir yn gyffredin mewn cegin er mwyn rhoi golwg gartrefol i'r llwyfan.

YR ORUCHWYLIAETH NEWYDD

ACT I

Prynhawn tua dechrau'r haf yw hi. Y mae MARI wrthi yn glanhau esgidiau. Benyw ganol oed yw, wedi gweld llawer tro ar fyd, a'i gwallt wedi gwynnu. Er hynny, y mae'n eithaf heini, ac nid yw wedi rhoi i fyny'r ysbryd. Eistedd ar stôl isel rhwng y burdd a'r lle tân. O'i hamgylch y mae dau neu dri phâr o esgidiau. Ar ôl ennyd, egyr y drws, a gesyd IFAN ei ben i mewn. Dyn canol oed yw yntau hefyd, ond nid yw'r byd a'i ofidiau wedi menu cymaint arno ef ag ar MARI. Dyn o gymeriad gwan yw ef. Gwél MARI, ac y mae yn diflannu pan gyfyd hi ei phen i'w weld ef. Sieryd MARI ar unwaith.

MARI: Hei! (*Daw pen IFAN i'r golwg unwaith eto.*) Mae dy eisiau arnaf i. Ble diflannaist ti ar ôl cinio?

IFAN: Dim ond lawr i'r sgwâr (*yn dod ymlaen ychydig*).

MARI: I'r sgwâr! Beth wnait ti heb y sgwâr annuwiol yna? [Rwyd wedi bod yn sefyll yno am dair neu bedair awr bob dydd ers pum mlynedd. Ac fel pe na bait wedi gweld popeth sydd yno i'w weld

gannoedd a miloedd o weithiau, rhaid i ti redeg yno bob tro y cei di fy nghefn i o hyd.

IFAN: Ble arall y gallaf i fynd? Wyt ti'n meddwl yr awn i yno petai gen i rywle arall i fynd iddo? (*Yn dod at y bwrdd.*)

MARI: Beth petawn i yn dechrau mynd i helpu dal i fyny cornelau'r sgwâr? Beth petai gwagedd y dynion yna sy'n sefyll y rhan orau o'u hoes yno yn penderfynu cael sgwâr iddynt eu hunain i was-traffu'u hamser ynddi?

IFAN: O gad hi, Mari! Gad hi nawr! (*Yn taflu ei het ar y bwrdd.*) 'Chei di ddim gwaith i fi wrth ddefnyddio dy dafod ac edliw hen bethau fel hyn drosodd a throsodd; nid arna i mac'r bai fy mod i allan o waith. (*Yn cydio mewn papur newydd a'i agor.*)

MARI: Nac arna innau chwaith! Ond fe allaf fleindio gwell gwaith i ti na sefyllian ar yr hewl fawr. Mae 'nhad yn yr ardd yn ceisio priddo'r tato. 'Oes dim cywilydd arnat ti ei weld e wrthi, a thithau'n rhy ddiog i roi hyd yn oed help llaw iddo?

IFAN: Ond mae e'n hoffi'r gwaith; petawn i'n mynd allan i'w helpu, fe orffennem cyn te, a wedyn fe fyddai mor ddiflas â chi â chlefyd arno yn eistedd o flaen y tân fan hyn, yn ei disgwyl yn bryd mynd i'r gwely.

MARI: 'Does fawr o berygl yr ei di'n ddiflas wrth weld gwaith yn cael ei orffen. Na minnau chwaith! (*Cyfyd.*) Hwre, gorffen y sgidiau yma, Mae eisiau mynd i orffen y llofft arnaf fi.

IFAN: Ond, Mari, 'rwyf eisiau gweld Wat y p'nawn yma.

MARI: Fe fydd yn ddigon clau i ti weld Wat p'nawn fory, a phetait ti heb ei weld e am chwe mis, 'fyddai hynny ddim colled i ti. Hwre, sgidiau chi'r dynion ydyn nhw—sgidiau 'nhad i fynd i'r seiat nos yfory, dy sgidiau di wedi bod yn y rasis neithiwr, a sgidiau Gwilym—Duw a wŷr ble buodd e! Ond 'does dim pâr i mi yma—'dydw i ddim yn debyg o lychwino pâr wrth fynd i unman, [hyd yn oed petai gen i bâr digon da i fynd].

IFAN: A wnei di ddal dy dafod os af fi ynghyd â'r sgidiau yna?

MARI: Na, wna i ddim dal fy nhafod. 'Rydw i wedi cael digon ar fy mherfedd ar geisio cadw tŷ i dri dyn—un yn rhy hen i weithio, un yn methu â chael gwaith—meddai fe . . .

IFAN (*yn taflu'r esgid a oedd yn ei law i lawr*): Fe wyddost cystal â minnau nad oes dim gwaith i'w gael yn y lle yma. Mae yma gannoedd yr un peth â mi—'rydw i'n cael y dŵl, ond ydw i?

MARI: Wyt. Ti sy'n ei gael fwyaf—ti a'r cŵn!

IFAN: Nawr, Mari. 'Dwyt ti ddim i fod i ddechrau ar fusnes y cŵn yna eto. Mae hawl gan ddyn i gael tipyn o bleser yn ei fywyd, ac os ydw i'n ei gael wrth roi ambell swllt ar y cŵn . . . Oni enillais i goron yr wythnos cyn y diwetha?

MARI: A faint gollaist ti yr wythnos ddiwetha?

IFAN: Fe gaf rheini'n ôl i gyd nos yfory. Dyna

pam yr wyf am weld Wat. (*Yn cydio yn yr esgid eto.*)

MARI: Petait ti'n gweld tipyn yn llai o Wat, fe fyddai'n bywyd ni yma gryn dipyn yn frasach.

IFAN (*yn taflu'r esgid a chodi'n wyllt*): O, 'rydw i'n mynd 'nôl i'r sgwâr, allan o'r cintach tragwyddol yma. . . (*Yn cydio yn ei het.*)

MARI (*yn dod 'nôl at y burdd*): Ie, cerdd, i ganol y rhaps yna! Dyna lle mae dy galon di nawr. Beth ddwedai dy dad pe gwelai ei fab yn cymysgu â'r set sy'n byw ar rasis milgwn a rasis ceffylau—fe, fu'n eistedd yn sêd fawr y Tabernacl am ddeugain mlynedd!

IFAN: Beth gwell wyt ti o daflu hynny i'm hwyneb i o hyd? [*Petai gwaith yn dod i'r Cwm yma eto, fe wellai pethau ar unwaith.*].

MARI: Ac fe roddit heibio'r milgwn a mynd 'nôl i'r Tabernacl unwaith eto? Gwyn fyd na ddigwyddai'r wyrth honno! Wel, 'rwy'n mynd i'r llofft, 'chaf fi ddim dâl i 'nghadw i fynd nes digwydd y wyrth, ac os wyt ti am sgidiau glân, paid â mynd 'nôl i'r sgwâr cyn eu glanhau.

(*Allan i'r dde. Daw IFAN ymlaen yn araf at y burdd; gwisg y ffedog; eistedd a dechrau lanhau'r esgidiau. Erys. Tynn ei bib o'i logell, guthia'r tipyn lludw sydd ynddi i mewn â'i fawd, a cheisia ei chynnau. Cnoc ar y ffenestr; pen WAT i'w weled yno. Amneidia IFAN arno i ddod i mewn trwy'r cefn. Â ymlaen â'r glanhau sgidiau wedi i WAT ddod i mewn. Dyn*

canol oed yw WAT; bu unwaith yn weithiwr caled, ond ar filgwn a betio y mae ei fryd yn awr. Arbenigion ei wisg yw cap ar ochr ei ben, a mwffler gwyn, mwy neu lai.)

IFAN: Paid â siarad yn uchel. Mae Mari ar y llofft—yn un o'i hwyliau. Efallai y byddai'n well i ti fynd; fe ddof i lawr i'r sgwâr cyn gynted ag y gallaf heb i Mari fy ngweld.

WAT: 'Dydw i ddim ond am dy weld di am ddwy funud; rhaid i fi ddal y bus tri i Dreharri. *Alun*
Ble mae Gwilym?

IFAN: 'Wn i ddim; mae e'n arfer dod i mewn tua phedwar i gael ei de.

WAT: 'Wyt ti'n meddwl y gallwn i ei weld am bum munud cyn amser y bus?

IFAN: Mae'n bosib ei fod yn yr offis fach yna sy' gan Hopkins yn y Billiard Hall, ond 'elli di byth a bod yn siŵr ble bydd e. I beth wyt ti am ei weld e?

WAT (*yn edrych o'i gwmpas*): 'Elli di gadw secret? Fe'th dalaf yn dda ond i ti sgwaro Gwilym drosof.

IFAN: Beth sy'n bod?

WAT: Fe wyddost fy mod i wedi entro'r milgi am y *Silver Cup* yn Nhreharri nos yfory? (*Yn eistedd wrth y burdd.*) *Alun*

IFAN: Gwyddwn. 'Rown i'n meddwl gofyn i ti a allwn i fentro rhoi swllt arno.

WAT: Swllt! Os galla i gael pethau fel rwy' am, fe elli fentro rhoi dy grys arno. Dyna paham yr wyf am dy help di.

IFAN: Beth alla i ^{ei}wneud?

WAT: Mae'r ci yna sydd gan Harri Tycrwn wedi mynd yn gloff. Nawr, dim ond y ci cythrel yna sydd gan Hopkins sydd arna i ofn. Rhaid i Gwilym wneud yn siŵr na fydd hwnnw ar ei orau. Fe ŵyr sut. Ac yna fe elli di a minnau, a Gwilym o ran hynny, wneud ffortiwn yn olreit.

IFAN (*yn codi*): Ond 'wnaiff Gwilym ddim o hynny.

WAT: Pam lai? Mae Hopkins yn gwneud hynny'n aml, a Gwilym sy'n edrych ar ôl y cŵn iddo.

IFAN: Rhaid i ti ci weld dy hunan. Efallai y gwnaiff e hyn os gofynni di iddo; (*yn cerdded i'r chwith*) fentra i ddim. . . (*Try yn ôl.*) Ti wyddost dy fod yn torri'r gyfraith?

WAT: Torri'r gyfraith i gythrel! Nid dyma'r tro cynta i ti na minnau wneud arian wrth wneud hyn. Faint o arian sy' gen ti wrth law?

IFAN: 'Does gen i 'run geiniog nawr—'does gen i ddim digon i gael dybaco heddiw. Dere â blewyn os oes peth gen ti? Fentra i ddim gofyn i Mari pan fydd yn ei hwyliau. (*WAT yn estyn ei focs dybaco.*) Efallai y gallaf gael gafael ar [hanner] coron erbyn fory.

WAT: Hanner coron! Dyma dy gyfle di, fachgen—cyfle na weli di mo'i debyg eto—fe gei 6 to 1 yn erbyn fy nghï i hyd nes y daw'r hanes allan nad yw ci Harri yn treio. A mae Harri wedi addo

cadw'r peth yn ddistaw. Mae yntau hefyd am wneud ceiniog. Fe ddylit roi pum punt o leiaf.

IFAN: Pum punt! Ble ar y ddaear hon wyt ti'n feddwl y gallaf i gael gafael ar bunt, heb sôn am bum punt?

WAT: Dy fusnes di yw hynny. Os na fydd gen ti swm go lew ar fy nghï i cyn hanner dydd fory, 'rwy'ti'n fwy o blydi ffŵl nag a feddyliais i erioed.

IFAN: Ust! Paid â chodi dy lais! Fe glyw Mari.

WAT: 'Rwy'n mynd. Cofia, 'rwy'n dibynnu arnat ti i setlo Gwilym. Dyna dy siâr di o'r fargen.

IFAN: Ond beth os na wnaiff e?

WAT: Wrth gwrs y gwnaiff e os gwêl e siawns i wneud arian. Paid â bod mor ddwl—mae e wedi bod yn glerc i Hopkins am ddigon o amser i ddysgu'r gêm i gyd. (*Yn codi.*) Mae e'n wahanol i ti. Y peth sy'n rhyfedd amdanat ti yw bod dy wreiddiau di yn y capel o hyd—yn methu anghofio dy fod wedi dy fagu yn y Band of Hope a'r seiat—a ffat lot o les mae nhw wedi bod i ti. 'Roedden nhw'n ddigon da tra oedd digon o waith yn y lle yma, ond faint o fara a chaws a chwrrw gest ti allan ohonyn nhw wedi i ti fynd ar y dôl?

IFAN: 'Dydw i ddim yn hoffi dy glywed di'n siarad fel yna, Wat. Wedi'r cwbl . . .

WAT: Nagwyt, mi wn. Wel, os yw'n well gen ti, gwaria dy arian ar gadw pregethwyr a ffeiradon neu'r bobl yna sydd ar hyd y lle yma yn ceisio gwneud beth mae nhw'n alw'n *Social Service*. *Social Service*, myn uffern i! 'Dyw'r bobl yna ddim

yn gwybod beth yw bod yn *social*. Mae'n well gen i gadw milgi.

(*Daw MARI i mewn, ac y mae IFAN yn ailgydio yn yr esgidiau.*)

MARI: Beth ar y ddaear sy'n mynd ymlaen yma? Gellid meddwl bod yma ddechrau diwygiad wrth glywed yr holl bregethu.

WAT: Dim ond taro i mewn i ddal pen rheswm â Ianto, Mrs. Hughes, a'r ddadl yn mynd dipyn yn boeth—dim byd o'i le, dim byd o'i le, Mrs. Hughes.

MARI: Rhyw sgêm newydd neu'i gilydd sut i wneud arian! Neu'n fwy tebyg sut i gael ffyliaid i golli arian, ac Ifan i fod yn un o'r ffyliaid.

WAT: Os dilynith e fy nghyngor i . . .

MARI: Os dilynith e dy gyngor di, fe fydd arian y dŵl i gyd ym moliau'r milgwn cyn i mi weld yr un ddimai ohonynt.

WAT (*yn ceisio bod yn ddifyrrus*): Nawr, nawr, Mrs. Hughes, fel pob menyw arall, 'dydych chi ddim yn gwybod beth yw *sport*.

MARI: Fe wn beth yw sport dy siort di yn iawn.

(*Daw GWILYM i mewn yn frysiog o'r dde. Tua dwy neu dair-ar-hugain yw ei oed, ac y mae yn fachgen digon lluniaidd ei olwg a'i osgo; eithr arwynebol yw ei wybodaeth am bopeth ar wahân i bleser a gamblo. Gesyd bapurau o'i law ar y dreser.*)

MARI: Gwilym, beth wyt ti'n wneud adre nawr?

GWILYM: Dim ond newid. 'Rwy'n mynd i lawr i Lanmorfa. O, 'oes crys glân i mi ar y llofft, mam?

MARI: Oes, yn y dodrefnyn. Beth sy'n mynd â thi i Lanmorfa?

GWILYM: Dim ond dreifio Mrs. Hopkins i lawr. . .

WAT: Y clerac yn actio fel *chauffeur*, ai e? Ond cyn i ti fynd i newid, Gwilym, dere lawr yr hewl gen i am funud. 'Rwy'n gorfod dal y bus tri, a rwy' am dy weld di.

GWILYM: 'Does gen i ddim amser nawr, Wat. Bory 'fory. 'Ydych chi wedi glanhau'n sgidiau i, 'nhad?

MARI: Fe'u glanhaf i nhw. Cerdd o'r ffordd, Ifan. (*Yn gwthio IFAN o'r stôl ac ail-ddechrau ar yr esgidiau.*)

WAT: Mae'n rhaid i mi dy weld nawr, Gwilym. 'Wnaiff hi ddim o'r tro bore 'fory. 'Fyddi di ddim munud, a 'fyddi di ddim ar dy golled. Fe all dy feistres aros munud i ti.

(*Cydia yn ei ysgwydd, a thywys ef at y drws de. Ant allan, a MARI yn edrych ar eu hól.*)

MARI: Pa sgêm o waith yr hen fachgen sydd gan Wat heddiw?

IFAN: 'Wn i ddim.

MARI: 'Ddwedi di ddim, wyt ti'n feddwl! Os ydw i'n nabod rhywbeth o'r dyn yna, y mae'n mynd ar ei ben i drwbwl, ac os gallaf fi help, 'chaiff e ddim mynd â thi a Gwilym gydag e.

IFAN: Dim ond dychmygu pethau wyt ti, Mari. . .

MARI: Rhyw greadur hollol ddi-enaid fel yna—

mac e fel tai e wedi cael hanner y lle yma i'w ddwylo—fel cigfran yn byw ar gig marw.

IFAN: 'Dydy e'n gwneud dim. . .

MARI: Mae e'n gallu dy dwyllo di, a llawer eraill hefyd, fel y myn. [Pesgi ar wendidau pobl sydd allan o waith!] Fe a'i sort—a Hopkins hefyd, o ran hynny.

IFAN: Paid â dweud dim am Hopkins. . .

MARI: O, fe wn bod Gwilym yn lwcus i gael job gydag e, a gwaith mor anioddefol o brin. A dim ond Gwilym sy'n dod ag arian i'r tŷ. . .

IFAN: Beth am fy nôl i?

MARI: Ie, a phensiwn tadcu! Fe fyddwn lot yn frasach o'r ddau swm anferth yna, oni fuaswn?—yn ceisio cadw digon o fwyd i lanw boliau'r tri ohonoch a chael peth yn sbâr i minnau! Ond petawn i'n gallu cael job gwell i Gwilym, fe gâi ymadael â Hopkins yfory. I ddweud y gwir wrthyt, 'dydw i'n hoffi dim o'r ffordd y mae Mrs. Hopkins yn mynnu cael cwmni Gwilym ar unrhyw esgus. 'Dydy e ddim yn iawn i fenyw briod i redeg o amgylch gyda chrwt ifanc.

IFAN: 'Rwyf ti'n mynd ormod i'r pictiwrs, Mari—dyna beth sy'n bod arnat ti. Maen' nhw'n cynhyrfu dy ddychymygdi. *[pethau]*

MARI: Pictiwrs neu beidio, 'thrystiwn i 'mo gwraig Hopkins rownd i'r cornel, petawn i yn eile fe. Ond wrth bob hanes, mae yntau yn gallu cysuro ei hunan yn burion.

(Cnoc ar y drws, a daw MORFUDD i mewn.)

Merch ifanc brydferth wedi gwisgo'n ddeniadol.)

MORFUDD: A oes rhywun yma? Hylo! 'Dyw Gwilym ddim wedi dod adre eto, ydy e?

MARI: Mae e wedi mynd lawr yr hewl gyda Wat; fe ddaw 'nôl mewn munud. Peth od na welaist ti nhw. *Mae e'n dreifio Mrs. Hopkins*

MORFUDD: Mae e adre'n gynnar heddiw.

MARI: 'Dydy e ddim wedi gorffen eto. Rhaid iddo fynd i lawr i Lanmorfa—dim ond dod adre i newid wnaeth e.

MORFUDD: I Lanmorfa?

MARI: Ie, mae e'n dreifio Mrs. Hopkins. . .

MORFUDD: Ond 'roedd e wedi addo dod i chwarae tennis gen i heno. Dyna i beth yr oeddwn i'n galw nawr—i ddweud bod Jim a Nansi yn dod i gwrdd â ni am chwech.

MARI: Tennis neu beidio, i Lanmorfa gyda Mrs. Hopkins y mae e'n mynd, meddai fe, ers dim pum munud yn ôl.

MORFUDD: Ond 'roeddem ni wedi trefnu tennis gogyfer â heno ers diwrnodau!

MARI: Paid â meio i. Fe gei siarad ag ef dy hunan pan ddaw i mewn. [Cerdd â'r sgidiau yma i'r gegin fach, Ifan, a cherdd i ddweud wrth tadcu ei bod yn well iddo roi'r gorau iddi am dipyn nawr.]

(Exit IFAN.)

MORFUDD: Yr hen Agnes Hopkins yna sy'n mynnu cael cwmni Gwilym—mae'n rhaid iddi gael hongian wrth rywbeth mewn trowser o fore tan nos.

MARI: Ni all Gwilym ei hosgoi yn dda iawn—rhaid iddo feddwl am ei job. 'Dydyn nhw ddim mor aml ffordd hyn nawr â mwyar duon yn yr hydref.

MORFUDD: Nid am fod yn gi bach iddi hi mae c'n cael ei dalu; er-mae'n ddigon posib bod Hopkins yn falch ei chadw hi'n gontented tra bo yntau'n chwilio mël ffordd arall.

(Daw GWILYM i mewn yn frysiog.)

GWILYM (ar unwaith): O Morfudd, mae'n ddrwg gen ni na alla' i chwarae tennis heno. 'Rown i'n meddwl anfon neges i ti nawr.

MORFUDD: Er mwyn i Agnes Hopkins gael dy arwain di rownd ar y lead!

GWILYM: 'Alla i ddim help. Fe all mam ddweud. . .

MARI: Cwerylwch eich hunain; 'rwy'n gorfod gwthio fy mhig i mewn i ddigon o gwerylon heb feddwl am ymyrryd yn eich rhai chi. 'Rwy'n mynd lan i'r llofft i roi digon o le i chi. (*Â allan.*)

GWILYM: 'Wyddwn i ddim hyd y p'nawn yma y byddai'n rhaid i mi fynd.

MORFUDD: Rhaid i ti fynd!

GWILYM: Wrth gwrs bod rhaid i mi fynd. 'Rwy'n cael lot o amser yn rhydd gyda Hopkins, a'r peth lleiaf allaf wneud yw dreifio'r car i Mrs. Hopkins.

MORFUDD: Mrs. Hopkins, ai e? 'Dwyt ti ddim yn ei galw'n Agnes eto.

GWILYM: Rhaid i ti ddysgu dal dy dafod, Morfudd.

MORFUDD: Fe fyddai digon o dafodau eraill yn rhydd petawn i'n gwneud hynny—maen' nhw'n ddigon prysur y tu ôl i'th gefn ers wythnosau.

GWILYM: Ni waeth gen i beth y mae neb yn ddweud. . .

MORFUDD: Digon i ti yw cael syllu ar y cyrls *platinum blonde*, a smelio'r powdwr a'r paent. . .

GWILYM: 'Does dim rhaid i mi ateb amdanaf fy hunan i ti nac i neb arall.

MORFUDD: Felly! A beth wyt ti'n feddwl yr wy'n mynd i ddweud wrth Jim a Nansi heno. Ceisia ddychmygu beth fydd y ddau hynny'n ddweud pan glywant. A mae nhw'n siŵr o glywed ble'r aethost ti, beth bynnag a ddwedaf i wrthynt. Fe fydd digon yn gwybod pwy oedd yn *sports car* Agnes Hopkins yn mynd allan o'r pentre heno.

GWILYM: Dwed beth a fynni—dy fusnes di yw hynny. 'Rown i'n mynd i roi gwybod i ti cyn gynted ag y gallwn.

MORFUDD: 'Ddaeth hi ddim i dy feddwl di i ddweud wrthi bod gennyt ti ymrwymiad arall am heno? Dy fod ti wedi addo oddi ar echdoe i chwarae tennis a mynd i'r pictiwrs wedyn?

GWILYM: Fe chwaraeaf dennis nos yfory, a mi ddof i'r pictiwrs.

MORFUDD: 'Ellit ti ddim mynd ag Agnes Hopkins i Lanmorfa nos yfory?

GWILYM: 'Rwy wedi dweud wrthynt ti nad mynd

â hi yno yr wyf fi! Hi-ofynnodd i mi ei dreifo oherwydd nad yw hi'n gyfarwydd â'r car eto. Ac, unwaith eto, 'dallaf fi ddim gwrthod, oherwydd bod Hopkins yn rhoi cymaint o amser rhydd i mi. Pam na elli di iwsio dy synnwyr, yn lle efelychu Mae West yn un o'i styrics?

MORFUDD: A thithau fel rhyw Clark Gable yn tywys *platinum blondes* ar hyd y lle! 'Rydw i'n gwmmi ddigon da i chwarae tennis neu i fynd i'r pictiwrws hyd nes y daw creadur fel'na i'r golwg. . .

GWILYM: Morfudd, 'rydw i wedi cadw fy nhymwr hyd yn hyn. . .

MORFUDD: 'Wyt ti ddim yn dweud dy fod mor dwp â methu gweld mai cael dy ddefnyddio i bwmpas yr wyt ti? Mae hi wedi bod yn hongian wrth gynffon rhyw ddyn neu'i gilydd oddi ar pan ddaeth hi i'r lle yma. A nawr, ti yw'r ffefryn.

GWILYM: O'r mowredd! Sôn am fenywod fel cathod! 'Fedlylais i crioed fod y berthynas mor agos.

MORFYDD: Ac os gallaf i help, 'dwyt ti ddim i gael taflu dy hun o flaen Agnes Hopkins.

GWILYM: Pwy sy'n gwneud hynny?

MORFYDD: Ti sy'n gwneud hynny. Mae'n gwneud sét amdanat mor sicr ag y gwnaeth gwraig Potiphar am Joseph.

GWILYM: 'Dydw i ddim yn mynd i wrando rhagor arnat ti. 'Rwy'n mynd i newid. A chyn y dof fi i chwarae tennis gennyf eto, fe fydd yn rhaid

i ti dynnu 'nôl lawer o'r hyn a ddywedaist, cofia hynny.

(*Clywir sôn car y tu allan. GWILYM yn mynd at y drws de ac yn edrych drwy'r ffenestr ar ei ffordd.*)

GWILYM: O'r mowredd! Dyma hi yn y car, a minnau heb wisgo. Ac y mae'r idiot Owen yna gyda hi.

MORFUDD: Fe ddywedais wrthyt y gwnâi rhywbeth mewn trowser y tro.

GWILYM: Os deuan' nhw i mewn—diawch, dyma nhw'n dod—cofia di nad wyt ti ddim i ymestyn dy dafod. Os gwnei di . . .

MORFUDD: Fe fyddaf mor boleit â hithau. Efallai y caf i wahoddiad i ddod i Lanmorfa gyda chi . . . *siŵr—o—gael!*

(*Daw OWEN i mewn, gan ddal y drws yn agored i Mrs. HOPKINS. Sieryd cyn iddi ddod i mewn. Golwg ddigon cyffredin sydd ar OWEN, ond y mae ei wyneb tenau a'i lygaid craff yn rhoi awgrym o'i feddwl chwim a'i dafod parod. Merch ifanc yw AGNES HOPKINS wedi'i gwisgo'n gostus a thanbaid. Ei nefoedd hi yw gwisgo côt ffyr a dreisio 'sports car' a chael bachgen ifanc wrth ei hochr ynddo.*)

OWEN: Hylo yma. Mae Mrs. Hopkins yn disgwyl Gwilym i ddod yn barod.

GWILYM: Mac'n ddrwg gen i, Mrs. Hopkins, 'rwyf wedi cael fy nghadw. 'Fydda i ddim eiliad.

(*Allan i'r dde, gan roi un olwg olaf ar y ddiwyf jenyw.*)

AGNES (*wrth ddod ymlaen â'i gwên mwyaf nefolaidd*): Mac'n berffaith olreit, Gwilym—berffaith olreit. Sut ydych chi, Miss Howells? Fe gwrddais â chi yn y *Tennis Club* ryw noson, on'd do?

MORFUDD (*â gwên nefolaidd arall*): Do'n siŵr.

AGNES (*eistedd wrth y burdd*): 'Roech chi'n chwarae gyda Gwilym, 'rwy'n cofio.

(*Y mae OWEN erbyn hyn wrth y lle tân.*)

MORFUDD (*gyda gwên arall*): Gydag ef y byddaf i'n chwarae, ran fynychaf.

AGNES: Ie, mae e sut chwareuwr da, on'd yw e? Mac'n bleser i fod yn bartner iddo fe: Fe all wneud i unrhyw un i edrych yn chwareuwr da fel partner—mae e mor dda wrth guddio *mistakes* ei bartner. (*Yn sylwi beth y mae wedi'i ddweud*) Dyna fel yr wyf fi 'n teimlo wrth chwarae gydag ef, beth bynnag.

(*Y mae OWEN yn dechrau teimlo'r awyrgylch, ond fel arfer y mae'n dweud y peth olaf a ddylai ei ddweud—nid yw 'tact' yn un o'i rinweddau.*)

OWEN: Fe ddwedodd Jim wrthw i hanner dydd ei fod e a Nansi yn dy chwarae di a Gwilym heno.

MORFUDD: 'Roeddem ni wedi trefnu hefyd. (*Eistedd ar y sofa.*)

AGNES: Ond dyna drueni! 'Ddwedodd Gwilym

yr un gair wrthyf fi. 'Fuaswn i ddim wedi meddwl gofyn iddo ddod i Lanmorfa, petawn i'n gwybod.

MORFUDD: 'Doedd gêm o dennis yn cyfri fawr yn ymyl trip i Lanmorfa.

AGNES: Na, a wedi'r cyfan fe gewch ddigon o gyfle i chwarae tennis eto. 'Does dim rhyw lawer i'w wneud yn y lle yma ond chwarae tennis. . .

MORFUDD: A mynd i lan y môr os bydd rhywun yn ddigon lwcus i fod yn berchen ar gar.

AGNES: Ie, mae'n hyfryd i fynd oddi yma am ychydig oriau. Fuasem ni ddim wedi dod yma onibai bod Hopkins wedi cael "Y Lodge" mor rhad a gweld cyfle i wneud busnes yma.

OWEN: Ie, mae'n siŵr o fod yn galed arnoch chi'r menywod sydd a dim i'w wneud i hela'r dydd yn nos.

AGNES: 'Chredwch chi ddim mor galed yw hi, Mr. Bevan.

OWEN: Dyna i chi beth rhyfedd nawr! Mae gwragedd y dynion yna sydd allan o waith yn gorfod bod wrthi'n ddyfal bob dydd yn ceisio cael dau pen llinyn ynghyd, a gwragedd y dynion sydd mewn gwaith—fel chi, Mrs. Hopkins—yn methu gwybod beth i'w wneud â'u hamser. (*Gwêl ei fod wedi rhoi ei droed ynnddi.*) Mae hynyna rywbeth yn debyg i baradocs, Morfudd, rhag ofn na wyddost ti ddim.

AGNES: O, mae gen i ddigon i'w wneud, Mr. Bevan. Ond mae bywyd mor *dull* yn y lleoedd hyn, 'dydych chi ddim yn meddwl?

OWEN: 'Fwaswn i ddim yn ei alw'n lle drwg pebai gen i ddigon o arian—i redeg car, er enghraifft.

AGNES: Ond 'rydych chi'n un o'r dynion *cultured* hynny sy'n gallu diddori eu hunain mewn llawer o bethau.

OWEN: ~~'Dyw'r diddordeb yna yn fawr o les at gael gwaith, Mrs. Hopkins.~~

AGNES: Ond y mae'n help i chi dreulio'r amser.

MORFUDD: Ie, mae e'n wahanol i ni'r merched sy'n gallu diddori ein hunain mewn un ffordd yn unig.

OWEN: A beth yw'r ffordd honno, Morfudd?

MORFUDD: 'Rwyf ti'n ddigon hen i wybod erbyn hyn, os oes llygaid yn dy ben di. Ceisio dal dyn ar fach, a'i chwarae ar ben y lein cyhyd ag y gallwn, a gorau i gyd os gallwn gael tri neu bedwar bachyn ar yr un lein.

OWEN: ~~'Rwyf ar fin cadwedigaeth, Morfudd; 'rwyf yn dechrau dweud y gwir.~~

(*Daw GWILYM i mewn.*)

GWILYM: Wel, dyma fi'n barod, Mrs. Hopkins. Beth am gychwyn?

AGNES: Ie, mae'n drueni colli hanner awr o'r haul yma ar lan y môr. Wel, gwd-bei. Mae'n ddrwg gen i am y tennis, ond fe gewch noson eto, oni chewch?

(*Y ddau yn mynd allan.*)

MORFUDD: Lot o gyfle mae'r haul yn ei gael i fynd trwy'r haen baent yna at ei chroen hi! (*Yn mynd i edrych drwy'r ffenestr.*)

OWEN: 'Wyddost ti, Morfudd, mae rhywbeth yn dweud wrthyf nad wyt ti'n hoffi'r fenyw yna.

MORFUDD: 'Wyt ti'n fy meio i?

OWEN: Wel, na; 'dallaf fi ddim dweud fy mod i. 'Does gen innau ddim rhyw deimlad serchus iawn ati chwaith; fe fyddai'n gelwydd i mi ddweud fy mod yn ei charu â'r cariad brawdol hwnnw y mae Iago yn sôn cymaint amdano.

MORFUDD: 'Chefais i erioed sut demtasiwn i grafu wyneb rhywun ag a gefais pan ddaeth hi i mewn a'r *scent* yna'n aroglu'r lle.

OWEN: Ie, 'rown innau'n meddwl fod yna ryw smel rhyfedd yn y stafell yma.

MORFUDD: 'Wyddost ti faint y mae'r *scent* yna'n gostio?

OWEN: Na wn i, wir. Fe gostiai'n ddrud i mi petawn i'n gorfod byw yn ei ganol e drwy'r dydd.

MORFUDD: Mae potel fach o'r stwff yna yn costio dros bunt.

OWEN: Wel, mae'n cael ei phunnoedd yn ddigon rhwydd—ac fe gaiff ddigon o boteleidiau o *scent* tra bo ffyliaid yn y lle yma yn credu eu bod yn ddigon holl-wybodol i broffwydo pa filgi sy'n mynd i ennill ras a pharhau i fetio gyda Hopkins y *Bookie*.

MORFUDD: A welaist ti sut wyneb erioed—(*yn dynwared* AGNES)—yn dweud mor *sweetly* wrth fynd allan—"mae'n ddrwg gen i am y tennis. . ."

OWEN: 'Roedd yn wers dda iawn i ti mewn bod yn boleit. 'Wnaiff y wers ddim drwg i ti, chwaith.

MORFUDD: Fe ddweda i'r gwir wrthi ryw ddiwr-

nod. Dod yma—hi a'i gŵr—i besgi ar y bobl yna sydd allan o waith. . .

OWEN: Ie, a gwisgo a phowdro a denu'r bechgyn ifainc oddi wrth ferched y lle ar yr arian hynny! Wel, na hidia, fe fydd ambell gaglyn fel fi ar ôl o hyd, os yw hynny o ryw gysur i ti.

MORFUDD: Ond 'chaiff hi ddim o Gwilym heb i mi wneud fy ngorau i'w rhwystro hi, beth bynnag.

OWEN: Fe ddwedais gynnau bod eisiau gwers ar fod yn boleit arnat ti. 'Wyt ti'n sylweddoli beth oedd y frawddeg olaf yna o'th eiddo yn olygu?

MORFUDD: 'Does gen i ddim amynedd. . .

OWEN: Gad i mi orffen, fenyw. (*Saif y tu ôl iddi.*) 'Roedd yn golygu, yng nghynta' (*cyfrif ar ei fysedd*) dy fod yn cydfynd fy mod i'n gaglyn. Nawr, mae'n burion peth i mi alw fy hun yn gaglyn, ond peth hollol wahanol yw i ti gyd-fynd â hynny! Yn ail, 'roeddit yn cyfaddef nad oedd y posibilrwydd ohonof fi'n cael fy ngadael yn rhydd o grafangau Mrs. Hopkins yn unrhyw gysur i ti. Nawr, 'dyw'r naill beth na'r llall ddim yn cydfynd â'r egwyddor o fod yn boleit. . .

MORFUDD: O! gad hi, Owen. 'Rwy'n gwybod nad wyt ti ddim yn meddwl hanner beth wyt ti'n ddweud, ond dy fod yn hoffi dy glywed dy hun yn siarad.

OWEN: A pheth arall, a'n bod ni wedi dechrau ar y pwnc yma. . .

MORFUDD: O! rho lonydd iddi, er mwyn popeth.

OWEN: Fe wnaiff les i ti glywed y gwir am

unwaith.) Y peth yr oeddwn i am bwyntio allan i ti —yn hollol ddiymhongar nawr, dim ond just hintio —oedd fy mod i wedi bod, unwaith neu ddwy yn fy oes, yn chwarae tennis. A minnau yn gwybod dy fod yn gydnabyddus o'r ffaith, 'rown i'n teimlo braidd—sut dweda' i?—fod fy nheimladau wedi'u brifo oherwydd na ofynnaist i mi fod yn bartner i ti yn lle Gwilym heno.

MORFUDD: Wedi'r bregeth yna ar y pwysigrwydd o fod yn boleit, yr ateb gorau a allaf ei roddi i ti yw hwn—fe fûm yn bartner i ti mewn tennis match unwaith—efallai dy fod yn cofio. . .

OWEN: Ie, wel, efallai ei bod yn well i ni beidio â thrin y pwnc yna ymhellach. Fe wn nad wyf yn disgleirio'n danbaid iawn ar *dennis court*. 'Dydw i ddim yn ffit i gusanu trowser Fred Perry, ydw i?

MORFUDD: Gwir bob gair, Owen.

(*Daw MARI i mewn.*)

MARI: O, chi sydd yma. 'Rown i'n methu dyfalu beth oedd y lleisiau a glywn. Fe wyddwn bod Gwilym a Mrs. Hopkins wedi mynd.

MORFUDD: Ie; ni'n dau sydd yma fel petaem yn berchen y lle.

OWEN: Mae'r llwyau a'r ffyrce i gyd yn y drôrs, modryb. 'Rwy'n fodlon i chi chwilio fy mhocedau.

MORFUDD: Fe fuaswn i wedi mynd ers amser onibai bod y creadur hwn yn baldorddi dwli. A chyda llaw, beth ddaeth â thi yma? 'Dwyt ti ddim yn arfer crwydro ar hyd y pentre gyda Agnes Hopkins, chwarae teg i ti.

OWEN: Dyna'r gair caredig cynta' a ddwedodd hi wrthyf y p'nawn yma, modryb. Rwyf newydd fod yn dweud rhai geiriau doeth wrthi ar y cwestiwn pwysig o sut i fod yn boleit.

MARI: Pam? A fu yna eiriau rhyngddi a Mrs. Hopkins?

OWEN: O! na; 'dyw merched yr oes hon ddim yn syrthio mor isel â dweud geiriau angharedig wrth ei gilydd. Na; 'wnaethon nhw ddim ond dangos eu hewinedd, dyna i gyd—a dim rhyw lawer o hynny chwaith—dim ond bron rhyw awgrym bod yna cwinedd wedi'u cuddio yn y palfau felfed. Ond modryb fach, mae nhw'n rhai miniog. 'Roedd un pip arnynt yn codi arswyd arna' i.

MORFUDD: Nawr, rho lonydd i'r huodledd yna, a dwed beth ddaeth â thi yma.

OWEN: 'Wyddost ti ddim fod pennod bwysig yn hanes y cwm yma yn cael ei hysgrifennu y prynhawn hwn?

MORFUDD: 'Elli di ddim dweud rhywbeth mewn geiriau plaen a pheidio â siarad mewn damhegion?

OWEN: 'Dydw i ddim yn siarad mewn damhegion—dim ond defnyddio ambell fetaphor—ond dyna, 'wyddost ti ddim beth yw'r rheiny. Wel, ynte, mae'r llanw mawr sydd wedi bod yn dod dros y dyffryn yma yn mynd i ddod yn erbyn y *break-water* cyntaf heddiw, ac yn fwy na hynny, yn y tŷ hwn. A dyna (*ystum*) paham yr wyf i yma.

MARI: Owen bach, a wnei di geisio dweud beth

wyt ti'n feddwl, ac nid siarad er mwyn clywed geiriau'n dod o'th geg?

OWEN: Mae yna bennod bwysig . . .

MARI: Do, do, fe ddwedaist hynny o'r blaen.

OWEN: Do fe? 'Rown i wedi anghofio. (*Yn siarad yn naturiol.*) Mae Hopkins y *Bookie* a Howells yr *Emporium*—mewn geiriau eraill, dy dad, Morfudd—yn dod i fyny yma cyn pen chwarter awr. Hwyl am heddiw yw cynrychiolwyr y llanw mawr—arweinwyr y blaidd sy'n cerdded dan y faner fawr "Progress."

MARI: Hopkins a Howells yn dod yma?

OWEN: Ydynt. 'Roen nhw ar y ffordd cyn i mi gychwyn. Wedi aros i drafod plan yr ymosodiad y maent—ac yn dangos tipyn o synnwyr wrth wneud hynny hefyd—oherwydd mae'r llanw yn mynd i dorri ar y graig gyntaf y daeth ar ei thraws.

MARI: 'Does gen i 'run syniad beth yr wyt ti'n geisio ei ddweud, ac mae'n amheus gen i a wyddost tithau hefyd.

MORFUDD: 'Does gen innau'r un syniad chwaith. 'Ddwedodd 'nhad ddim wrthyf fi. A phennod fawr hanes neu beidio, 'rwy'n mynd. Efallai y cewch chi beth synnwyr allan ohono wedyn, Mrs. Hughes.

OWEN: Morfudd, un cwestiwn cyn yr ei di. A glywaist ti sôn am Gantre'r Gwaelod erioed?

MORFUDD: Do, fe glywais yr enw.

OWEN: Wel, dyma dasg i ti i'w wneud yn lle chwarae tennis. Chwilia allan beth oedd menywod Cantre'r Gwaelod yn ei wneud pan ddaeth y llanw

dros y lle. Dyna, paid â dweud dim yn awr. Dos, a gwna dy dasg.

MORFUDD (*wrth fynd*): P'nawn da, Mrs. Hughes. Os dechreua blethu gwair yn ei wallt, danfonwch am y polis ar unwaith.

(*Wedi ei MORFUDD fynd, y mae OWEN yn newid yn llwyr.*)

MARI: 'Ydy Hopkins a Howells ar y ffordd yma?

OWEN: Ydynt; fe'u gwelais yn cychwyn. Dylent fod yma ers amser, ond maent yn siŵr o gyrraedd. 'Does dim sy'n sicrach.

MARI: Beth maen' nhw'n mofyn? Pwy maen' nhw am weld?

OWEN: Eisiau gweld tadcu y maen' nhw. A chredwch chi fi, mae'r ddau yn ofni'r cyfarfyddiad yn fwy nag unrhyw ddau grwt a fu erioed yn mynd i gael gwialen fedw ar sêd eu trowseri.

MARI: Beth maen' nhw'n mofyn gyda 'nhad? (*Yn rhoi lliain ar y bwrdd ac yn paratoi gogyfer â'r ymweliad.*)

OWEN: Fe gewch chi weld. Ble mae e? 'Rown i'n meddwl y byddai yn y tŷ.

MARI: Mae e wedi bod yn yr ardd drwy'r prynhawn. Mae'n well i mi ei alw i'r tŷ os wyt ti'n dweud y gwir.

OWEN: O, ydw; 'rwy'n dweud y gwir yn sicr.

(*MARI yn mynd allan, a chlywir hi'n gweiddi, "Tadcu, tadcu! Dewch i'r tŷ. Dewch eich dau, a glanhewch eich sgidiau." Yn ystod hyn, y mae OWEN yn cynnau ei bib.*)

MARI: Beth oeddet ti'n sôn gynnu am bennod mewn hanes? Siarad trwy dy het oeddet ti, neu a oedd gennyf ryw reswm?

OWEN: 'Dydw i byth yn siarad trwy fy het, modryb—ddim os gallaf i help, beth bynnag. Mae dau o bwerau myya'r ardal yma yn dod p'nawn heddiw i weld tadcu, oherwydd bod ganddo allu dros rywbeth sy'n sefyll yn eu ffordd, ac yn ffordd yr hyn y maent yn ei alw'n "Progress."

MARI: Ond beth sydd gan 'nhad druan i'w wneud â dau fel'na?

OWEN: Mae ganddo fwy nag y maent wedi'i sylweddoli, os nad wyf yn camsynied, er eu bod wedi sylweddoli cryn dipyn hefyd.

(*Daw ENOC ac IFAN i mewn. Hen ŵr tua 75 yw ENOC. Y mae'n hollol wahanol i'r teip o hen ŵr a ddangosir ar y llwyfan yn arferol. Y mae ganddo lais mwyn, heb ddim cryndod; sieryd yn araf, ond y mae'n gallu rhoi ateb cyflym. Cadwodd ei gynheddfau i gyd, ac y mae ei ddau lygad mor fyw ag y buont erioed.*)

ENOC: Petawn i wedi cael chwarter awr yn rhagor buaswn wedi priddo'r tato cynnar i gyd.

MARI: Fe gaiff Ifan eu gorffen eto.

ENOC: Mae e'n siŵr o wneud més ohonyn nhw—'ddysgodd e erioed y ffordd i briddo tato. Yr unig beth all Ifan wneud yn yr ardd â graen arno, yw palu, yntê, Ifan?

IFAN: 'Dwy'n cael fawr o gyfle i wneud dim arall.

ENOC: Fe gei di damaid o'r ardd i ti dy hunan y flwyddyn nesaf, i gael gweld pwy gaiff y tato gorau. Beth wyt ti, Owen, yn ei wneud yma?

MARI: Mae Owen yn dweud bod Howells yr Emporium a Hopkins y *Bookie* ar eu ffordd i'ch gweld chi.

ENOC: I 'ngweld i? Beth sy'n achosi iddynt roi'r anrhydedd hwnnw i mi?

MARI: Mae e'n gwrthod dweud—siarad lot o ddwli a dweud dim.

OWEN: Maent ar eu ffordd i'ch gweld chi'n eitha reit, tadcu. Blaenredegidd yn unig ydw i.

ENOC: O! wel, 'does dim eisiau gwneud llawer o frys. 'Dyw'r anrhydedd ddim yn mynd i'm llethu.

MARI: Pam na ddwedi di beth maen' nhw'n mofyn? 'Wyt ti'n siŵr mai tadcu maen' nhw am ei weld ac nid dy nwnawl?

OWEN: O ie, ie; tadcu maen' nhw am ei weld. Ac 'rwyf wedi dod yma yn yr hyder y caf eu gweld yn mynd adre a'u cynffonnau rhwng eu coesau am y tro cyntaf yn eu bywyd.

MARI: Mi fyddai'n dda gen i petait ti'n stopio'r holl siarad penagored yna, a dweud geiriau sy'n golygu rhywbeth.

(*Y mae IFAN ger y ffenestr.*)

IFAN: Dyma nhw eu dau—yn dod at y drws.

OWEN: Sut maen' nhw'n edrych, nwnawl?

IFAN: Fel arfer, mor bell ag y gallaf i weld.

(*Cnoc. A MARI i'w ateb.*)

OWEN: 'Ydyn nhw'n debyg i ŵyn yn dod i'r lladdfa?

ENOC: Beth andras sy'n dy gorddi di y prynhawn yma, Owen?

OWEN: Fe gewch chi weld, nawr.

(*MARI yn dod yn ôl, yn arwain HOWELLS a HOPKINS. Dyn canol oed yw HOWELLS, a golwg dyn busnes da arno, dyn sy'n ceisio gofalu gorau y gall am y ddau fyd. Tua deugain oed yw HOPKINS; nid oes ond un byd yn wybyddus iddo ef: un o "sportsmen" yr ardaloedd diwydiannol yw, ac y mae'n ymddwyn bob amser yn hollol gyson â'i greddo, hynny yw, yn unol â daliadau moesol pobl o'r fath.*)

MARI: Mae'r ddau ŵr bonheddig yma am eich gweld, 'nhad. (*Wrth y ddau*) 'Rwy'n siŵr nad oes wahaniaeth gennyh ddod i'r gegin—mae arnaf ofn bod y parlwr yn anniben dros ben gennyf heddiw—ar hanner fy *spring-cleaning*.

HOWELLS: Popeth yn iawn, Mrs. Hughes. 'Rwy llawer mwy cartrefol mewn cegin bob amser. Sut ych chi, Enoc? 'Rydych yn adnabod Mr. Hopkins, on'd ydych?

ENOC: Ydw, siŵr. ('Rydym wedi dweud "Sut mae heddiw?" wrth ein gilydd fwy nag unwaith.) 'Ydych chi'n weddol iawn, Howells?

HOWELLS: O ydw, yn dda iawn. 'Dydw i ddim yn achwyn, beth bynnag.

ENOC: Gweld eich heisiau chi yn y cwrdd ddydd Sul a wnaeth i mi holi.

HOWELLS: O! . . . wel . . . fe euthum i a'r teulu am dro bach dydd Sul. (*Yn brysio oddi wrth y cwestiwn hwn*) Ond, i mi gael dweud ein neges. Y . . . y . . . (*yn edrych o'i gwmpas, yn enwedig at OWEN*) . . . 'roeddem am eich gweld wrthy ch eich hunan, Enoc.

OWEN: Eisiau cael fy ngwared i ydych chi? Neu modryb a nwnawl?

MARI: O, fe awn ni. Dere, Ifan.

OWEN: Ewch chi. Ond 'rydw i'n aros yma.

HOWELLS: Ond y mae'r mater yr ydym am ymdrin ag ef yn gyfrinachol.

OWEN: O, ydy e? Wel, chi'n gweld, 'rwy'n digwydd gwybod beth ydyw.

HOWELLS: Beth? Amhosibl!

OWEN: Ydw, ydw, 'rwy'n gwybod—fe'i cefais o'r man iawn prynhawn heddiw. Dyna paham yr wyf yma. A dyna paham yr wyf yn mynd i aros.

HOPKINS: Pwy ddwedodd wrthy?

OWEN: Wel, fel mae plant yn dweud, holi yw hynna.

MARI: Rhaid i ti beidio ag aros os ydyn nhw am i ti fynd, Owen.

OWEN: Nid yn eu tŷ nhw yr ydw i. Os ydy tadeu am i mi fynd, fe af, ond fe fydd yn rhaid iddo addo rhoi'r stori i gyd i mi wedyn—air am air.

ENOC: 'Does dim eisiau i ti fynd o'm rhan i, Owen. 'Rwy'n siŵr na fydd dim gen i i'w ddweud na ellir ei glywed ar ganol y sgwâr.

OWEN: Wel, ynte—dyna hi! 'Rwy'n aros.

HOPKINS: Mae hyn yn lletchwith iawn, Howells.

OWEN: Ydy, fe allaf gredu hynny. Ond gan fy mod i'n gwybod y cwbl yn barod, 'dydw i ddim yn gweld pa wahaniaeth a wna fy mhresenoldeb di-nod i. Mae'n well i chithau aros, modryb; fe fydd eich cywreinrwydd bron yn fwy nag a ellwch ei ddioddef unwaith yr ewch chi trwy'r drws yna. Efallai y cewch chi strôc neu rywbeth wrth wrando yn nhwll y clo.

HOWELLS: 'Dydw i ddim yn gwybod yn iawn sut i ddechrau, Enoc.

(*Erbyn hyn y maent wedi eu dosbarthu eu hunain ar y llwyfan: ENOC yn y gadair, HOWELLS a HOPKINS yn eistedd wrth y burdd, HOWELLS rhwng ENOC a HOPKINS, OWEN a MARI ar y sofa, ac IFAN rywle yn y cefn.*)

OWEN: Gadewch i mi eich helpu. Fe wyddwn o'r gorau y byddwn o ddefnydd petawn i'n aros. Mae'r bobl yma bron â marw eisiau gwybod beth ddaeth â chi yma, ac y mae'n beth creulon i'w cadw yn eu hanwybodaeth ymhellach. Maen' nhw wedi dod yma i'ch gweld chi, tadeu. 'Rydych wedi dod yn ddyn pwysig yn sydyn; 'wyddech chi ddim o hynny, efallai. Chi yw unig trustee y tamaid tir yna sy'n perthyn i'r capel. Nawr, dyma fi wedi torri'r iâ i chi eich dau, ac—yn iaith Cwm Rhondda—wadwch bant.

HOWELLS: Pwy andras sydd wedi dweud y pethau yma wrthy ti?

OWEN: Fel y dywedais i gynnu, holi yw hynna, ac fe ellwch holi nes bo'ch tafod chi'n hongian allan o'ch ceg, ond 'dydw i ddim yn mynd i ateb.

ENOC: Petait ti, Owen, yn rhoi llonydd iddynt, efallai yr aethent ymlaen â'u neges.

HOPKINS: Ie, ewch ymlaen, Howells. Dyna ddigon ar y ffwlbri yma.

HOWELLS: Wel . . . chi'n gwybod, Enoc, mai chi yw'r unig un ar ôl o'r tri *trustee* ar y cae yna sy'n ffinio â mynwent y capel?

ENOC: Gwn, fe wn hynny'n burion.

HOWELLS: Y . . . y . . . fe adawyd y cae i'r capel, fel 'rwy'n deall, gan Hubert Rees yn ei ewyllys, er mwyn changu'r fynwent, pan fyddai angen am hynny?

ENOC: Do'n siŵr, mae hynny'n blaen yn y gweithredoedd; gyda chi, Howells, fel trysorydd y mae'r rheiny, felly fe ddylech fod yn gwybod. (*Yn cael syniad newydd.*) 'Dydych chi ddim wedi colli'r gweithredoedd, ydych chi?

HOWELLS: Na, na; mae'r gweithredoedd yn hollol ddiogel—peidiwch â phryderu.

ENOC: Wel, ynte, beth yw'r holl ffys yma ynghylch y cae?

HOWELLS: 'Dydy hi ddim yn debyg y bydd cisiau'r tir i changu'r fynwent, on'd nad yw?

ENOC: Na. Mae digon o le i gladdu'r holl aelodau sydd yn y capel ddwywaith drosodd. A wela' i fawr o argoel y daw rhyw lawer o aelodau newydd, fel y mae gwaetha'r modd.

HOWELLS: Fel yna'n hollol yr oeddwn innau'n meddwl; mae'r bobl ifaine yn ymadael—yn mynd i ffwrdd i Loegr—a neb yn dod yn eu lle. Mae'n dorcalonnus iawn . . . torcalonnus iawn.

ENOC: Ond—esgusodwch fi—'ddaethoch chi ddim yma i ddweud hyn wrthyf?

OWEN: Nawr, tadcu, byddwch yn amyneddgar. Sylwadau rhagarweiniol yw'r rhain—(*hors d'œuvres*) mae pobl boleit yn eu galw.

(HOWELLS *yn edrych yn gas arno.*)

HOWELLS: Wel, mae rhai ohonom wedi bod yn meddwl yn ddiweddar y gallai'r cae yna fod o ddefnydd i ddefelocio'r pentre yma, i'w wneud yn lle mwy atyniadol ac yn y blaen—a gwneud lles i'r capel yr un pryd.

ENOC: Mae digon o eisiau gwneud lles i'r capel, Howells, mewn llawer ffordd. Beth ydych yn feddwl—cael mwy o aelodau?

(OWEN *yn gweiddi* "Ha! ha!" *dros y lle.*)

ENOC: 'Dydw i'n gweld dim yn ddigri yn hynna, Owen.

OWEN (*yn ceisio'i lywodraethu ei hun*): Na, ond fe fyddwch, tadcu; fe fyddwch yn y man, (pan ddewch i wybod y cwbl.

ENOC: Lles ymha ffordd yr oeddech yn ei feddwl, Howells?

HOWELLS: Wel, mewn ffordd ariannol. Efallai y gallasem gael swm o arian i'n galluogi i roi'r capel ar ei draed—a chael gweinidog, efallai, unwaith eto.

ENOC: Mae pob trysorydd eglwys yn credu mai

dim ond arian sydd eisiau i roi capel ar ei draed; dyna pam y maent yn cael eu rhoi'n drysoryddion, mac'n debyg.

HOWELLS: Mae'n rhaid i ni gael arian o rywle, Enoc. Fe wyddoch hynny gystal â minnau.

ENOC: Oes; mi wn bod yn rhaid cael arian.

HOWELLS: Wel, mac'r cae yma ynghanol y pentre—yn *site* ardderchog. Mewn gwirionedd, 'does yna'r un *site* arall tebyg iddo yn agos. (Ac os ydym yn mynd i ddatblygu tipyn ar y lle yma—ei roi ar y map, fel petai . . .

OWEN: Pa fap?

ENOC: Owen, rhaid i ti ddal dy dafod.)

HOWELLS: Mewn gair, petaem ni'n defnyddio'r *site* yma i'r pwrpas iawn, fe allem dynnu cryn dipyn o fusnes i mewn i'r lle yma eto.

ENOC: Mae'n rhaid fy mod yn dwp iawn, Howells, ond 'dydw i ddim wedi cael gafael ar eich syniad chi eto. A ydych yn awgrymu y dylai'r capel actio fel rhyw fath o *limited company* a gwerthu siârs a thalu *dividend*, neu beth?

OWEN: Syniad gwreiddiol dros ben, tadcu—The Bethlehem Co., Limited. . .

HOWELLS (*yn dechrau colli ei dymer*): Nid hynna o gwbl. Meddwl oeddwn i y gallasem werthu'r cae i ryw gwmmi i'w ddatblygu, a dod â gwaith a busnes yma eto. (*Hytrach yn gas, wrth OWEN*) 'Does dim o'i le yn hynny, 'oes e?

OWEN: Peidiwch â gofyn i mi; gofynnwch i tadcu.

ENOC: Mae'n dibynnu ar y ^{gwmmi} fusnes, Howells, 'ydy e ddim?

HOWELLS: Fe ddylech geisio sylweddoli, Enoc, bod y byd yn symud ymlaen; nid syniadau'ch cenhedlaeth chi yw syniadau'r oes hon.

ENOC: Nage; 'rwy'n gwybod hynny, hefyd.

HOWELLS: Wel, a fydddech chi'n fodlon ystyried gwerthu'r cae yna?

ENOC: Mae hynny'n dibynnu, Howells, ar lawer o bethau.

HOWELLS: 'Rydw i wedi derbyn cynnig amdano—cynnig da dros ben, mewn gwirionedd.

ENOC: Felly'n wir.

HOWELLS: Wel, beth ydych yn ei ddweud?

ENOC: 'Rwy'n disgwyl clywed o ble y daeth y cynnig. Neu a oes yn rhaid i ni ei werthu fel mochyn mewn sach?

HOWELLS: Ie . . . (*"Ha! ha!" wannaidd*) . . . wrth gwrs. . . 'Dydw i ddim yn siŵr iawn . . . ond mac'r cynnig yn un da—da dros ben.

(*Ennyd.*)

HOPKINS: Pam na ddwedwch chi'n blaen? 'Does yna'r un rheswm dros ei gadw'n ddistaw. Fi roddodd y cynnig.

ENOC: O! dyna lle yr ydych chi'n dod i mewn, ai e? 'Rydw i wedi bod yn ceisio dyfalu ble 'roeddech chi'n dod i mewn.

HOPKINS: Ie, 'rydw i ar ran *syndicate* am brynu'r cae yna, a'i ddefelopio er mwyn cael tipyn o fywyd yn y lle yma eto, a thipyn o waith i rai o'r bobl yma.

ENOC: Wel, wir, 'rwy'n falch iawn i glywed hynny. Mae eisiau gwaith yma'n druenus. Beth, er enghraifft, ydych chi am wneud â'r cae?

HOPKINS: Ni wyddom yn iawn eto—fe gawn weld. Tipyn o le i chwarae, efallai—neuadd neu ddwy i'r bobl ifainc i ddod at ei gilydd. Sinema, mac'n bosibl. Rhaid setlo hynny ar ôl prynu'r cae.

OWEN: Wel, wel! ~~Fflanthropi pur digymysg!~~ 'Wyddoch chi beth sy'n dod i'm meddwl i, tadcu? (Cyfyd a daw y tu ôl i'r burdd.)

ENOC: Nawr, Owen, bydd yn dawel. . .

OWEN: Ond fe ddylech glywed beth sydd gen i i'w ddweud cyn mynd ymhellach. Mae pobl gelwyddog i'w cael yn y pentre yma—'ellwch chi ddim coelio gair a glywch. . .

ENOC: Os nad oes gennyf rywbeth. . .

OWEN: Gadewch i mi orffen. 'Wyddoch chi beth glywais i? Bod y *syndicate* yma yn golygu gwneud trac rasis milgwn ar y cae hwn. Dyna i chi beth ofnadwy i'w ddweud, yntê nawr? (*Edrych o'i gwmpas yn ddiniwed.*) Wrth gwrs, 'rydych chi, Mr. Hopkins, yn teimlo diddordeb mewn rasis, on'd ydych? Dyna a wnaeth i'r bobl yma feddwl y fath beth—siŵr iawn, siŵr iawn!

HOPKINS: Mae llawer gormod o glebran yn y lle yma—mac'n amhosibl gwneud dim heb fod rhywun yn gwthio ei drwyn lle nad oes ei eisiau.

OWEN: 'Rwy'n cydfynd yn hollol â phob gair a ddwedwch. Ond, wrth gwrs, petai'r *syndicate* yma yn bwriadu gwneud trac rasis milgwn, fe fydddech

yn dweud hynny wrth tadcu ar unwaith, oni fydddech?

HOPKINS: Beth pebaem yn meddwl gwneud hynny? A fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth?

OWEN: Peidiwch â gofyn i mi. Nid fi yw'r *trustee*. Ond mac'n rhaid eich bod yn credu y byddai'n gwneud gwahaniaeth, neu 'fydddech chi ddim yn awyddus i gelu'r ffaith. (*Â yn ôl i'r soffa eto.*)

HOPKINS: 'Cheisiais i ddim gwneud y fath beth.

ENOC: Wel, 'chlywais i ddim sôn. . .

HOPKINS: Pa raid oedd arnaf i wneud hynny? Mae'n well i chi wynebu'r ffeithiau. 'Does dim eisiau'r cae arnoch chi; mae ei eisiau arnom ni. Ein busnes ni yw beth yr ydym yn mynd i'w wneud ag ef. 'Rydym yn fodlon talu pris da amdano. Mae eisiau'r arian arnoch chi, ac y mae arian gennym ninnau, ac felly fe ddylai fod yn bosibl i ni gwrdd â'n gilydd ynghylch y peth.

OWEN (*wrth MARI*): 'Ydych chi'n cofio i fi sôn gynnau am y llanw mawr?

HOPKINS: Beth ddwedsoch chi?

OWEN: O! dim byd, dim byd. Ewch chi ymlaen! (*Ennyd.*)

ENOC: A beth ydych chi, Howells, yn ei feddwl am y cynnig yma?

HOWELLS (*yn clirio ei wddf ac yn ceisio dod dros ei anesmwythyd*): 'Rwy'n ei weld yn gynnig da iawn. . .

ENOC: Fe ddwedsoch hynny o'r blaen. Dyna i gyd?

HOWELLS: Wel . . . y . . . ie . . . y . . .

ENOC: Ac yr ydych yn credu y dylem ei dderbyn?

HOWELLS: 'Dydw i'n gweld dim i'n rhwystro. Mae'n ddyletswydd arnoch i gofio bod y capel mewn dyled mawr.

ENOC: 'Dydych chi, felly, yn gweld dim o'i le mewn eglwys yn gwerthu darn o'i thir er mwyn cael lle i gynnal rasis milgwn a phethau cyffelyb?

HOWELLS: Os na werthwn i'r cae yma iddynt, wnân' nhw ddim ond prynu cae arall yn uwch i fyny yn y cwm, ac fe fyddwn ni ar ein colled, a neb ar eu hennill.

ENOC: 'Does gan hynny ddim i'w wneud â'r cwestiwn a ofynnais. (Fe ellwch gyfiawnhau popeth yn y ffordd yna—trwy ddweud "Os na wnawn ni hyn, fe wna rhywun arall." Dyna beth y mae lleidr yn ei ddweud—"Os na chymra' i'r siawns hon, fe'i cymerir gan rywun arall." . . .

HOWELLS: Ond mae eisiau'r arian arnom, Enoc. Chwi wyddoch hynny gystal â minnau. 'Rydym dros ein pennau mewn dyled.

ENOC: Mae eisiau rhywbeth heblaw arian ar y capel hefyd.

HOWELLS: 'Does gan y defnydd a wneir o'r lle ddim i'w wneud â ni. Mae'n cyfrifoldeb ni'n gorffen wedi i ni werthu'r tir.

ENOC: 'Dyw'n cyfrifoldeb ni byth yn gorffen, Howells.

HOPKINS: 'Ddeuthum i ddim yma i wrando' ar bregeth.

ENOC: Naddo, mae'n debyg. Ond 'wna hi ddim drwg i chi. Mae tipyn o amser oddi ar pan wrandawsoch ar bregeth o unrhyw fath.

OWEN (*hanner wrtho ei hun*): On'd yw e'n cael ei ergydion i mewn yn deidi? *Solar plexus* bob cynnig!

HOPKINS: Beth?

OWEN: Dim byd, dim byd! Ewch chi 'mlaen. 'Rwy'n mwynhau fy hun yn ardderchog, diolch yn fawr.

HOPKINS: 'Rydw i am gael ateb. A ydym ni'n mynd i gael y cae yna ai peidio? (Mae'n debyg mai gennych chi mae'r hawl i ddweud, ac yr wyf am i chi ddweud "Ie" neu "Nage.")

HOWELLS: Rhaid i chi gofio bod y byd yn newid, Enoc—pethau'n mynd a dod. . .

ENOC: Crefydd a diwylliant yn mynd, a rasis milgwn a phictiwrs yn dod—ie, mae hynny'n eitha gwir, Howells. A ydy hynny'n rheswm dros werthu'r cae?

HOWELLS: 'Waeth i chi beth wnawn ni—ffordd yna mae'r byd yn mynd.

OWEN (*yn porthi*): Ie, siŵr. . . "Ymlaen yr awn." . . .

MARI (*yn siarp*): Owen, bydd ddistaw.

ENOC: A ydy'r byd wedi symud digon ymlaen i ni allu gwasanaethu Duw a Mamon?

OWEN: Cwestiwn da!

HOPKINS: Nid mater o grefydd yw hwn, ond mater o fusnes.

ENOC: A oes yna wahaniaeth?

HOPKINS: Meddyliwch beth fuasai gwerthu'r cae yn ei olygu.

ENOC: 'Rwy wedi meddwl yn ddifrifol iawn.

HOPKINS: Fe allai'r *syndicate* roi gwaith i gant neu ddau o bobl am rai misoedd. A ydy rhoi gwaith i bobl sydd hebdo yn beth anghrefyddol—a chymaint o ddynion ar y dŵl yma ers blynyddoedd?

ENOC: 'Rwy'n siŵr y byddech yn garedig dros hen. Faint ydych chi'n fwrw o amser gymerai i chi gael yr enillion hyn yn ôl wedi i'r rasis a'r pethau eraill ddechrau?

OWEN: Cwestiwn teg iawn, tadcu.

HOPKINS (*wedi colli ei dymher o'r diwedd*): 'Dydw i'n aros dim rhagor. (*Yn codi.*) Deuthum yma i roi cynnig da am y cae yna, cae sy'n hollol ddiwerth i chi ac i bawb arall, gan fwriadu rhoi gwaith i gannoedd o bobl a cheisio rhoi bywyd yn y lle yma. A 'dydw i wedi cael dim ond aniolchgarwch ac *insults*—gan hen ddyn fel hyn sydd hanner can mlynedd ar ôl ei oes, yn rhagrithio a chrechwen.

OWEN (*yn codi*): Hanner munud!

(*Try HOPKINS gan wynebu OWEN.*)

HOPKINS: 'Dydw i ddim am wrando ar ddim sydd gennyti ti i'w ddweud.

OWEN: Nac ydych, ond fe gewch wrando. Mae tadcu wedi ymddwyn yn foneddigaidd hollol. . .

HOPKINS: Ac yr ydw innau wedi ymddwyn yn foneddigaidd tuag at y teulu hwn i gyd. Onid yw eu mab yn derbyn cyflog gen i ers misoedd—cyflog mewn pentre lle mae pawb arall ar y dŵl?

OWEN: A oes gan hynny ryw beth i'w wneud â thadcu?

ENOC: Fe fuasai'n llawer gwell i ti adael i mi drin y mater hwn fy hunan, Owen. 'Dwyt ti'n gwneud lles i neb.

HOPKINS (*try at ENOC*): 'Rwy'n rhoi un cynnig i chi eto. A ydych yn fodlon gwerthu'r cae yna i'r *syndicate* ai peidio? Os nad ydych, yna y mae Gwilym yn mynd ar y dŵl yr wythnos nesaf—os caiff e'r dŵl—'chaiff e ddim dimai o gyflog wedyn gen i.

MARI (*yn codi a symud i'r cefn*): Ond 'does a fynnom ni ddim â'r peth. O'm rhan i, fe allech gael yr hen gae fory—ac y mae Ifan yn credu yr un peth. 'Rydych yn mynd i'n cosbi ni oherwydd styfnigrwydd 'nhad.

HOPKINS (*wrth ENOC*): 'Rwyf wedi rhoi'r cynnig i chi.

MARI: 'Nhad, meddyliwch beth ydych yn ei wneud. Nid peth i chi yn unig yw hwn.

ENOC: Ie, Mari, peth i mi yn unig yw hwn, a 'does gen i 'run dewis i'w gael. Chi wyddoch fy ateb (*wrth HOPKINS*).

HOPKINS: Ac fe wyddoch chwithau'r canlyn- iadau. Prynawn da!

(*Allan.*)

Mr Howells

MARI (*wrth* HOWELLS): Ewch ar ei ôl a cheisiwch ganddo beidio â mynd.

ENOC: I beth, Mari fach, i beth?

MARI: I beth? ~~Tri dyn segur ar fy nwylo i! A minnau wedi bod mor falch i weld Gwilym yn ennill! Pa les yw'r tir yma i'r capel? Mae'n bechod i chi wrthod yr arian amdano, a gwrthod cyfle i gael gwaith i'r holl ddynion—dyna'r gwir i chi!~~

HOWELLS: 'Rydych yn llygad eich lle, Mrs. Hughes. Yr hyn sydd eisiau yma'n fwy na dim yw gwaith.

ENOC: ~~Ac yr ydych yn credu, Howells, bod y cyfle i roi gwaith yn cyfiawnhau popeth—hyd yn oed dod â pheth hollol groes i'ch daliadau crefyddol i ymyl y capel yr ydych yn ceisio addoli ynddo?~~

HOWELLS: Os na chewch chi arian o rywle, ni fydd capel i'w gael cyn pen ychydig.

OWEN (*yn eistedd ar y sofa yn awr*): Dwedwch i mi, Howells, faint o arian ydych chi'n mynd i'w wneud allan o'r fusnes yma?

HOWELLS: Mae'r cwestiwn yna'n hollol anfoneddigaidd, Owen. 'Dydw i'n meddwl am ddim ond am les y capel.

OWEN: Felly'n wir. Ond atebsoch chi ddim o'r cwestiwn. 'Ydy'ch siop a'ch busnes chi ddim yn ffinio ar y cae yna? A oes dim posibilrwydd y caech werthu ar dermau da petai'r *syndicate* yn prynu'r cae? Mewn gwirionedd, mae'n fwy na phosibilrwydd, onid yw?—mae'n rhan o'r plan.

HOWELLS: 'Dydw i ddim wedi meddwl am y peth.

OWEN: 'Dydych chi ddim wedi meddwl, er enghraifft, y byddai'n beth neis i riteirio i *villa* newydd sbon ar lan y môr ar ffrwyth y fargen?

HOWELLS: A beth os gwna i? A all rhywun fy meio?

OWEN: Na; ond rhaid i chi wedyn roi i fyny berswadio tadcu mai lles y capel sydd gennyh mewn golwg.

MARI: 'Does neb ohonoch yn astudio fy lles i—y fi gaiff ddiodeff yn y pen draw. Fe elli di siarad yn burion. Dere yma i geisio cadw tŷ i dri o ddynion segur.

ENOC: Dyna ddigon o siarad. Mi wn nad yw dy fywyd di, Mari, ddim yn nefoedd, o bell ffordd, ond 'dyw hynny'n ddim rheswm dros yr hyn y mae Howells am i mi ei wneud. 'Rwyf wedi gweld digon o gyfnewid yn f'oes yn y pentre yma; 'rwyf wedi gweld dynion fel Ifan yn colli pob gafael ar ddim a oedd o werth yn eu bywyd, a milgwn Wat a'i siort yn mynd i olygu mwy iddynt na'r un gwrthrych arall dan haul. A phan fo cyfle gennyf i wneud rhywbeth i achosi ychydig o rwystr i'r suddo hwn i bwll anobaith, 'dydw i ddim yn debyg o'i golli. 'Doedd dim eisiau i chi ddod â Hopkins i fyny yma, Howells; dylasech fod yn f'adnabod yn ddigon da i wybod beth fyddai fy ateb. A thra bo anadl ynof, a'r hawl gennyf, 'chaiff y cae yna ddim mynd i'w ddwylo.

HOWELLS: Dyna'ch gair olaf chi?

ENOC: Dyna'r gair olaf.

HOWELLS (*yn troi at y drws*): Yna fe gaiff y capel chwilio am ei arian ei hunan, o'm rhan i (*wrth fynd*).

OWEN: A gwd-bei i'r *villa* ar lan y môr!
(*Â HOWELLS allan.*)

LLEN.

ACT II

Nos trannoeth. ENOC *yn gwisgo ei esgidiau a pharatoi i fynd i'r seiat.* Daw MARI *i mewn o'r chwith.*

MARI: Heb fynd i'r seiat ydych chi eto?

ENOC: Mae digon o amser. Am hanner awr wedi saith y mae hi heno. 'Wyt ti ddim yn dod?

MARI: Na, ddof i ddim heno, 'nhad. 'Rwy'n meddwl mynd i'r pictiwrs gyda Neli drws nesa.

ENOC: Ie, seiat a phictiwrs; pictiwrs a seiat! Sawl gwaith y buost ti yn y pictiwrs oddi ar y buost ti yn y seiat ddiwethaf?

MARI: 'Waeth gen i ddim, 'nhad. 'Rwy'n gallu anghofio pethau yn y pictiwrs—anghofio 'ngofidiau, anghofio bod Ifan allan o waith, anghofio beth sydd i ginio fory. A dyna'r unig le 'rwy'n gallu anghofio.

ENOC: Ond 'rwy'ti'n gorfod dychwelyd at d'ofidiau i gyd wedyn, fel mae gwaetha'r modd, Mari.

MARI: Wedi byw gyda nhw am wythnos, mae'n nefoedd i'w hanghofio am ddwy awr—mwy o nefoedd nag a gaf i yn y seiat.

ENOC: Ifan a Gwilym yn y rasis, tithau yn y pictiwrs, a minnau yn y seiat—pob un yn ôl ei elfen.

Wel, rhaid i mi beidio â dweud dim. 'Rwy'n ddigon o faich arnat ti heb i mi wneud hynny.

(*Daw OWEN i mewn.*)

OWEN: Hylo, tadcu; 'rown yn meddwl y byddech chi wedi mynd i'r seiat. Sut ych chi, modryb?

ENOC: Beth wyt ti'n wneud â'th hunan heno? A wyt ti'n dod i'r seiat?

MARI: Ie, cerdd, Owen. 'Rwyf mor hoff o siarad; fe gei ddigon o gyfle yno.

OWEN: Wel, na, 'doeddwn i ddim yn golygu mynd heno. Rhyw blan arall oedd yn fy meddwl i. (*Yn eistedd ger y bwrdd.*)

ENOC: Un arall eto wedi chwilio rhywbeth gwell. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i mi fynd wrthyf fy hunan.

OWEN: Ie, tadcu, chi yw'r cynrychiolydd olaf o'r hiliogaeth a oedd yn well ganddynt seiat na phictiwrws a rasis milgwn a phethau cyffelyb.

MARI: 'Rwy'n falch dy fod yn ddigon gonest i roi dy hunan gyda'r gwrthgilwyr. Wrth dy glywed yn siarad ambell waith, gellid credu dy fod yn dy synied dy hun yn esiampl i ni oll.

OWEN: Ble'r ych chi'n mynd heno—i'r pictiwrws?

MARI: Meindia dy fusnes dy hunan.

OWEN: Mae yna bictiwr da difrifol yn y Plaza, medden' nhw—*guaranteed* i wneud i chi lefain am awr gron gyfan; maen' nhw'n rhoi macynon pocedi i chi—rhatach na gorfod golchi'r llawr yn y bore, debyg iawn. Ac os na fydd eich llygaid cyn goched

â llygaid sgadan yn dod allan, maen' nhw'n rhoi'ch arian 'nôl i chi.

MARI: 'Rwyf ti wedi bod, mae'n debyg.

OWEN: Na ato Duw! Mam fu yno neithiwr, a dyna i gyd a gefais i frechwast a chinio heddiw, ac yr oeddwn i ofn mynd adre i de. Gobeithio y bydd pethau ychydig yn well erbyn swper—dyna i gyd.

MARI: ~~Dod yma gan obeithio cael gwahoddiad i swper wnest ti?~~

OWEN: Na; er y byddai meddwl am swper heb erchyllderau'r Plaza fel *condiment* yn bleserus iawn. Ond 'does fawr o obaith am hynny nawr os ydych chi'n mynd yno. 'Y . . . y . . . 'welsoch chi 'mo Morfudd ar hyd y lle yma ar ôl te?

MARI: Chwilio honno wyt ti, ai e? Na, 'welais i mohoni. Efallai iddi fynd gyda Gwilym i Dre-harri, i'r rasis.

OWEN: Na; fe welais i Gwilym yn cychwyn gynnu.

MARI: Edrych yma, 'does gen ti ddim i'w wneud heno. Aros yma hyd nes y daw dy nwnawl adre. ~~Fe allaf fynd i'r pictiwrws nawr wedyn. 'Does gen i 'run lle i adael yr allwedd iddo, oherwydd 'does neb adre drws nesa ond Neli, a mae hi'n dod gen i.~~

OWEN: A fydd e'n hir?

MARI: Na; rhyw fusnes neu'i gilydd sydd ganddo yn y pentre. Fe fydd adre unrhyw amser nawr.

OWEN: O'r gorau; fe weithredaf fel ceidwad y tŷ hyd nes y daw.

MARI: Mi af i ddweud wrth Neli nawr, iddi gael dod yn barod ar unwaith. (*Allan i'r Dde.*)

OWEN (*yn llwytho'i bib*): A oes rhywun wedi sôn wrthyh heddiw am y cynnig y troisoch eich cefn arno neithiwr?

ENOC: Na; 'chlywais i 'run gair ymhellach. ~~Cefais lonydd drwy'r dydd.~~

OWEN: Mae'r cwbl yn fater cyhoeddus erbyn hyn; mae senedd y sgwâr wedi dadlau arno. 'Does dim eisiau dweud mai ffurfiol hollol oedd y ddadl—'roeddynt yn cytuno i gyd am unwaith.

ENOC: 'Dwy'n synnu dim.

OWEN: Mae Hopkins yn dweud ar hyd y lle eich bod chi yn ei rwystro i roi gwaith i 'wn i faint o ddynion—'dydw i ddim yn siŵr nad yw'r ffigur yn filoedd erbyn hyn.

ENOC: A beth yw'r farn gyffredin?

OWEN (*yn codi a cherdded yn ôl ac ymlaen*): 'Dydw i ddim wedi cwrdd â neb eto sy'n cydfynd â chi. Mae un neu ddau wedi mynd mor bell â dweud eu bod yn deall eich safbwynt—ond dweud celwydd yr oeddynt.

ENOC: Wel, mi wyddwn y byddai pawb yn anghytuno â mi. Dyna, mewn gwirionedd, sy'n fy ngwneud mor sicr fy mod yn gweithredu'n iawn.

OWEN: A styried fy mod i wedi bod—mewn ffordd o siarad—yn actio fel clochydd i chi o'r dechrau, 'dydw i ddim yn hoffi eich clywed yn dweud "pawb." 'Dydw i ddim yn un o'r pawb yna.

ENOC: Na, ond am ryw reswm neu'i gilydd, 'dydw i ddim yn cyfri dy farn di. 'Does gennynt ti ddim gwreiddiau yn y lle yma.

OWEN: Dyna lle'r ydych yn camgymryd, tadcu. Fe ddwedwn i mai fy ngwendid i yw fod fy ngwreiddiau i yma, ond fy mod yn methu â sugno unrhyw ffrwyth o'r awyrgylch, fel y dylai coeden wneud, yn ôl y botani a ddysgwyd i mi yn yr ysgol.

ENOC: Ie; efallai dy fod yn iawn. Mae gen i'r capel a'r seiat; hen bobl sy'n mynd yno, dynion wedi byw eu hoes yma, ac wedi byw yn rhy hen. Ni ellir disgwyl i ti gael rhyw lawer o flas yn y cwmni yno. Ond ar y llaw arall, 'does gennynt ti ddim dileit yn yr hyn sy'n llanw bywyd y bobl ifainc chwaith. 'Rwynt fel rhyw belican yn yr anialwch, yn ceisio llanw'th fywyd trwy feirniadu ffaeleddau pobl eraill.

OWEN: Beth arall sydd gennyf i'w wneud?

ENOC: Digon. 'Rwynt wedi cael llawer o ysgol; mae digon yn dy ben di. Pam na ei di oddi yma i rywle lle y gelli ymuno â bywyd y bobl?—lle y gelli wneud rhywbeth heblaw beirniadu?

OWEN: Haws dweud na gwneud, tadcu. Wedi bod allan o waith er pan ddeuthum o'r Ysgol Sir, 'does neb am roi gwaith i mi, yma nac yn unman arall. A pheth arall, dyma'r unig bobl a adnabûm erioed. Transplantiwch fi rywle arall, ac y mae'n ddigon tebyg y byddaf mor anhapus ag Escimô yn Affrica. Yr hyn sy'n fy mhoeni i, tadcu, yw fy mod am ryw reswm neu'i gilydd yn credu bod rhywbeth

mwy i'w gael allan o fywyd na bara a chaws a phlescra. Petaech yn gofyn pam 'rwy'n credu hynny, 'fedrwn i ddim ateb.

ENOC: 'Rwy'n adnabod dy glefyd yn iawn. Er dy fod ti ddwy genhedlaeth ar fy ôl i, ti yw'r unig un o'r teulu i gyd all ddeall fy safbwynt i. A minnau yw'r unig un all ddeall dy safbwynt dithau.

OWEN: Dau rebel, mewn gwirionedd.

ENOC: Ie, ond fy mod i'n rebelio tua diwedd fy oes, a thithau tua'r dechrau.

OWEN: Wel, na hidiwch. Mae'r Llywodraeth holl-wybodol yn sicr o'm symud i chwilio am fy mywoliaeth yng nghyffiniau Llundain cyn bo hir. Pan fydd athrawon hanes yn gofyn ymhen canrif-oedd, "Pwy oedd y Cymry?" yr ateb a gânt fydd, "Cenedl fach o bobl a symudwyd yn grwn i Lundain oherwydd bod bara a marmalêd yn rhy brin yr ochr orllewinol i Glawdd Offa." A gorau i gyd po gyntaf yr anghofiaf unrhyw syniadau sydd gennyf wedi mynd trwy'r *Severn Tunnel*.

(Daw MARI i mewn, yn mynd drwodd ac i'r chwith.)

MARI: 'Roedd Morfudd drws nesa, ac fe ddwedais wrthi dy fod yma ac am ei gweld hi.

OWEN: Nawr, beth andras a wnaeth i chi ddweud peth mor dwp?

MARI: Oni ddwedaist ti dy fod am ei gweld?

OWEN: 'Rois i ddim rhyddid i chi gyhoeddi'r peth ar ganol yr hewl.

MARI: Wel, fe ddwedodd y deuai hi i mewn,

beth bynnag. Rhyngot ti a hi. 'Rwy'n mynd i newid. (*Allan.*)

ENOC: Rhaid i minnau fynd gan fy mhwyll hefyd. (*Cyfyd, gesyd ei spectol yn ei logell a'i lyfr canu dan ei fraich.*) Meddylia am yr hyn a ddwedais wrthyf, Owen. 'Dwyt ti ddim yn sylweddoli hynny, ond yr wyt gymaint yng nghrafangau'r llifeiriant a ddaeth dros y lle yma ag yw Ifan a Gwilym a Morfudd a phawb arall. Meddylia am y peth. Mae'n fwy o drueni i weld rhywun fel ti yn colli dy *bearings* nag yw i weld llawer un arall yn mynd i rasis milgwn. Fe gaf i siarad â thi am hyn eto.

(Daw MORFUDD i mewn cyn iddo gyrraedd y drws.)

ENOC: Dyma Morfudd wedi dod i gadw cwmni i ti. 'Ddoi di ddim gen i i'r seiat, mae'n debyg, Morfudd?

MORFUDD: Na, ddim heno, Enoc Jenkins.

ENOC: Ie; wel, 'feddyliais i erioed y deuet ti. 'Rydw i'n ddigon cyfarwydd â mynd wrthyf f'hunan erbyn hyn. Helpa Owen i gadw tŷ nes y daw Ifan adre. (*Allan.*)

OWEN: Mae'n beth rhyfedd i feddwl, Morfudd, ond dyna ddyn sy'n well ganddo fynd i'r seiat nag i'r pictiwrs. Ni elli di ddirnad hynny, ond mae'n eitha gwir.

MORFUDD (*yn eistedd wrth y burdd*): 'Doedd dim pictiwrs i'w cael pan oedd e'n ifanc—dyna'r unig reswm. Fe ddwedodd Mrs. Hughes dy fod am fy ngweld.

OWEN: O, fe ddwedodd hynny, do fe?

MORFUDD: 'Ddwedaist ti ddim wrthi am ddweud?

OWEN: 'Rwyf yn adnabod modryb yn ddigon da i wybod bod pob gair yn mynd yn frawddeg a brawddeg yn mynd yn stori yn ei cheg hi.

MORFUDD: Fe ddwedodd dy fod wedi dod i fyny ffordd hyn i chwilio amdanaf.

OWEN: Wel, mae hynny gryn dipyn yn nes at y gwir; 'roeddwn yn rhyw hanner meddwl, efallai, os nad oedditi'n golchi dy wallt, neu gyweirio dy sanau neu'n gwneud rhyw orchwyl cartrefol o'r fath . . y . . efallai y leicet ti ddod am dro gen i dros y banc . . i gael tipyn o awyr iach . . a . . a gweld yr adar bach . . ti'n gwybod . . "o'r naill drum i'r llall yn hedeg" ac yn y blaen?

MORFUDD: 'Allaf i ddim dod heno, Owen . . y . . 'rwyf am fod yma pan ddôn' nhw 'nôl o'r rasis o Dreharri.

OWEN: A oedd swllt gennyf tithau ar gi Wat?

MORFUDD: Nac oedd, yn siŵr.

(Daw MARI i mewn wedi newid ychydig.)

MARI: Wel, 'rwy'n mynd. 'Rwy'n siŵr na fydd Ifan ddim yn hir, Owen. Aros yn gwmni iddo, Morfudd.

OWEN: Sawl macyn poced sydd gennych chi?

MARI: Oni ddwedaist ti bod digon yno?

OWEN: Do, do; nawr 'rwy'n cofio. Wel, gobcithio y mwynhewch eich hunan.

MARI: Fe wna' i o'r gorau. Dwed wrth Ifan am ferwi'r tegil erbyn y dof i adre. (*Allan i'r Dde.*)

MORFUDD: Ddoe o'r blaen fe fuom ein dau yn cistedd yma fel petaem yn perchen y tŷ.

OWEN: Na hidia am hynny. Fe'i collaist hi na fuasit wedi aros yma i glywed yr helynt neithiwr. A glywaist ti am y peth?

MORFUDD: Do, fe glywais ddigon gan 'nhad. Ac y mae'n debyg dy fod ti ar gefn dy geffyl wrth weld yr hen ŵr yn blocio sgêm o'r fath!

OWEN: 'Wnes i ddim. . .

MORFUDD: Naddo; 'doedd dim eisiau i ti wneud dim. Fe wyddit yn iawn beth wnâi dy dadcu. Mae rhai o bobl y capel yn ei ddifrio yn ofnadwy—gwrthod cyfle o'r fath i gael arian i helpu'r achos. A stopio'r unig gyfle am waith y mae dynion y lle yma wedi'i gael ers cymaint o flynyddoedd.

OWEN: Ie, chwarae teg i ti; 'rwyf yn rhoi'r achos gerbron yn dda iawn.

MORFUDD: O, 'rwy'n gwybod beth yw dy syniadau di yn burion. 'Does gen i ddim amynedd â thi—'wnaethost ti ddim erioed i helpu neb na dim.

OWEN: Ac wyt am i mi geisio dylanwadu ar tadcu—i'w gael i newid ei feddwl?

MORFUDD: Na, 'dydw i am i ti wneud dim; fe wn yn iawn na wnei di ddim, fodd bynnag. 'Rwy'n dy adnabod yn rhy dda erbyn hyn. A pha ddrwg sydd ym mhobl y pentre yma i gael rasis milgwn i'r lle, pan fôn' nhw'n mynd yn awr i Dreharri? Ac os na chân' nhw'r cae yma, 'wnân' nhw ddim

ond mynnu cae yn uwch i fyny yn y cwm, a cholli gwaith a busnes i'r pentre hwn.

OWEN: 'Wyddost ti, 'rwy'n falch nad oeddit ti yma i helpu Hopkins neithiwr.

MORFUDD: O, beth gwell ydw i i siarad â thi!

OWEN: Wel, na; 'rwy'n cyfaddef y byddit yn fwy tebyg o wneud argraff ar tadcu nag arnaf i. Mae yna haen gref o sentimentaliti yn perthyn i tadcu fel i lawer o'i genhedlaeth. Er mai piwritaniaid syber ydynt i'r olwg allanol, mae dy sort di wedi dysgu sut i fanteisio ar eu gwendid. Chi, y menywod, sydd wedi eu gorfodi i roi ffordd i bopeth newydd—chi sydd wedi dod â'r elfen o respectabiliti i mewn i'w crefydd. Er, rhaid cyfaddef, fe fethodd modryb â gwneud fawr o argraff arno neithiwr.

MORFUDD: Mae'n hen bryd i rywun wneud iddo weld synnwyr.

OWEN: Rhaid i mi geisio ei gadw allan o gyrraedd dy ddylanwad di, dyna i gyd.

MORFUDD: Petait tithau yn gostwng dy ben o'r cymylau am ychydig a gweld pethau fel y maent, fe fyddai'n dipyn o les i ti. Mae bywyd wedi diflannu o'r lle yma; 'does yma ddim ond sofr wedi crino ar ôl.

OWEN: A fyddai'n wahaniaeth gennyt i ddiffinio'n gwinws beth a olygi wrth y gair "bywyd" yna er mwyn rhywun anwybodus fel fi?

MORFUDD: Fe wyddost yn iawn beth yr wyf yn ei olygu, ac nid dy syniad di am fywyd yw. 'Fedri

*betio a
dawnsio
a mynd i
twtter*

di ddim sylweddoli beth yw bywyd dynion a menywod y lle yma yn debyg, a 'fedri di ddim gweld beth y mae dianc oddi wrth eu bywyd cyffredin yn ei olygu iddynt.

OWEN: 'Rwy'ti'n credu'n onest, nawr, mai dy syniad di am fywyd—y life ofnadwy yma yr wyt ti a phawb arall yn sôn cymaint amdano—yw'r syniad iawn?

MORFUDD: Wrth gwrs fy mod i. Mae pawb yn meddwl hynny ond pobl fel ti sy'n pregethu'n dragwyddol ac yn byw genhedlaeth dda ar ôl eu hoes.

OWEN: Petait yn fy nghymryd mewn llaw nawr, feallai y gellit roi tipyn o olau i mi ar y mater.

MORFUDD: Mae digon o cisiau goleuni arnat, beth bynnag.

OWEN: Wel, dyma gynnig da i ti; 'rwy'n fodlon cael cwrs o ffilosoffi modern gennyt.

MORFUDD (*yn codi*): Dyna gymaint a gei heno, beth bynnag. Rhaid i mi fynd.

OWEN (*yn codi*): Pryd mae'r wers nesaf yn dechrau?

MORFUDD: Fe gawn weld; mae'n dibynnu ar sut y byddi'n bihafio y dyddiau nesaf yma.

(*Daw IFAN i mewn.*)

OWEN: Hylo, nwnawl. Fi sy'n cadw tŷ yma heno. Gofynnodd modryb i mi aros hyd nes y daethech chi adre; mae hi wedi mynd i'r pictiwrs.

IFAN: O! (*Mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le.*)

MORFUDD: Wel, 'rydw i wedi aros hen ddigon. Nos da. (*Allan.*)

OWEN: Beth sy'n bod, nwnawl?

IFAN: E? O, dim byd.

OWEN: Beth ydych chi wedi'i wneud? Arian ar filgwn eto, a'r rheiny'n methu dal y sgwarnog?

'Oedd gennych chi ddim arian ar gi Wat? *hwnnw wedi colli?*

IFAN: Pwy ddwedodd wrthyt ti?

OWEN: Neb. Gofyn yr oeddwn i.

IFAN: Wel, i ddweud y gwir wrthyt, yr oedd. (*Yn eistedd wrth y burdd.*)

OWEN: Ac fe gollodd, do fe? Faint oedd gennych chi arno—swllt?

IFAN: Swllt, myn hyfryd i! 'Roedd Wat wedi dweud ei fod yn *cert*, a mi rois bum punt arno.

OWEN: Beth ddwetsoch chi? (*Ennyd.*) 'Ddwetsoch chi bum punt?

IFAN: Mae gennyt glustiau, on'd oes?

OWEN: Ond . . . 'docs dim cymaint o arian i'w gael yn y pentre, ar wahân i ambell bliwtocrat fel Hopkins! 'Dydych chi ddim wedi gweld pum papur sofran gyda'i gilydd ers blynnyddoedd. Tynnwch fy nghoes arall i!

IFAN: Mae e'n eitha gwir, fel mae gwaetha'r modd, Owen. Ac y maent wedi mynd lle na ddônt yn ôl.

OWEN: Ond ble ar a luniwyd yn y greadigaeth y cawsoch chi bum punt? A dorr'soch chi i mewn i'r banc neu rywbeth?

IFAN: Fe wnes beth na ddylwn ei wneud, Owen;

a 'fwaswn i ddim wedi ei wneud onibai i Wat i ddweud bod ei filgi cythrel yn saff o ennill.

OWEN: Ond ble cawsoch chi'r arian? A oes yna ragor i'w cael?

IFAN: Fe wyddost yr oriawr aur yna a gafodd dy fodryb ar ôl ei hewyrth?

OWEN: Gwn! (*Ennyd. Sieryd yn ddistaw*) 'Dydych chi ddim yn dweud i chi . . . ?

IFAN (*yn nodio*): 'Ro'wn i'n meddwl y buasai gennyf ddigon o arian i'w chael yn ôl heno cyn i Mari weld ei heisiau. Fe gefais addewid gan Cohen y cawn hi 'nôl am chwech punt, ac yr oeddwn yn sefyll i ennill pum punt ar hugain.

OWEN: Wel, 'rydw i am fod filltir dda oddi yma pan ddaw modryb i wybod.

IFAN (*yn protestio*): 'Doedd dim bai arna' i, Owen.

OWEN: Ar bwy oedd y bai, ynte?

IFAN: Ar Wat—Wat a Gwilym rhyngddynt. Nhw a'm twyllodd.

OWEN: Ond nid nhw ddygodd y *watch*.

IFAN: 'Ddygais i mohoni. Rhaid i ti beidio â dweud hynny. Ei benthycy yn unig yr oeddwn i . . .

OWEN: Fe fwaswn i'n ei alw yn fenthycy am dragwyddoldeb. A oedd Gwilym yn gwybod?

IFAN: Nac oedd. Ac fe fydd gennyf dipyn i'w ddweud wrtho pan gyrhaedda adre.

OWEN (*yn eistedd*): Sut cawsoch chi'r wybodaeth am y ras?

IFAN: Jim y barbwr a fu ar y teliffôn.

OWEN: Druan o modryb! Ychydig wŷr hi beth sy'n ei disgwyl adre o'r pictiwrs heno.

IFAN: 'Does dim eisiau i ti wastraffu dy drueni arni hi. Y fi fydd yn gorfod dioddef. 'Doedd yr hen *watch* yn dda i ddim iddi. Mae wedi bod yn y drôr ers blynyddoedd—dim ond ei chadw i Gwilym, erbyn y câi swydd o ryw fath. 'Fydd hi ddim colled i Mari o gwbl, ond 'chlywa' i mo'r gair diwethaf am y peth.

OWEN: Fe gewch glywéd cryn dipyn yn y cyf-amser. Beth andras wnaeth i chi gredu bod milgi Wat mor saff â hynny?

IFAN: 'Roedd sgêm gan Wat a Gwilym—'roedd yn amhosibl iddo golli—medden' nhw.

OWEN: Ac y mae'r amhosibl wedi digwydd. Mae'n debyg y byddwch lawn mor ddwl pan ddaw'r *cert* nesaf eto.

IFAN: Edrych yma, 'dydw i am ddim o'th bregethu di. Fe fydd yn ddigon i mi ddioddef tafod Mari, ac felly, cadw di dy geg ynghau, er mwyn popeth.

(*Egyr y drws yn sydyn. Daw GWILYM a WAT i mewn ar frys.*)

GWILYM: O, dyma chi! (*Wrth OWEN*) Beth wyt ti'n wneud yma heno eto? A oes gennyf ddim gwell i wneud â'th amser na mynd o dŷ i dŷ yn cario clec a siarad yn ddoeth?

OWEN (*yn codi: sieryd yn hollol dawel*): Wel, a 'styried mai modryb a ofynnodd i mi gadw tŷ hyd nes y deuai un ohonoch chi adre . .

GWILYM: Beth bynnag ddaeth â thi yma, bant â thi nawr! 'Rydw i am siarad â 'nhad.

OWEN (*ar y ffordd i'r drws de*): Ar gwestiwn llosgawl hefyd, fe allwn feddwl. Eisiau setlo pa fwyd i'w roi i filgi Wat erbyn y ras nesaf, efallai. (*Yn troi yn ôl o'r drws*) O, a than gofio, nwnawl, mae modryb am i chi ferwi'r tegil erbyn y daw hi adre. (*Allan.*)

GWILYM: Beth oedd yr idiot yna'n ei wneud yma? A fuoch chi'n sôn wrtho am y ras heno? (*Yn croesi i'r chwith, ac IFAN felly rhwng y ddau.*)

IFAN: Naddo fi, siŵr.

WAT: Gad i Owen fod nawr. Wrth bwy soniaist ti am ein sgêm ni, Ianto?

IFAN: Fi? fi? 'Soniais i ddim wrth neb.

WAT: Mae'n rhaid dy fod wedi dweud wrth rywun. Dim ond ti oedd yn gwybod, ar wahân i ni'n dau, ac felly mae'n rhaid dy fod wedi methu cadw dy hen geg ynghau.

IFAN: Pam raid i ti fy nghyhuddo i? Beth am Gwilym? Beth amdanat tithau? 'Roeddem ni'n tri yn gwybod, on'd oeddem?

GWILYM: 'Soniais i 'run gair wrth neb, a mae rheswm yn dweud na wnâi Wat ddim. Felly mae'n rhaid mai chi sy'n gyfrifol.

WAT: Pam ddiawl y bûm mor ddwl â dweud wrthyt ti, 'wn i ddim. A dyma'r tâl 'rwy'n gael!

IFAN: Ond 'rwy'n dweud wrthyt ti nad yngenais i 'run gair wrth undyn byw. Un ohonoch chi'ch dau sy'n gyfrifol, a cheisio rhoi'r bai arna' i.

GWILYM: Faint o arian roisoch chi arno?

IFAN: Os oes rhaid i ti gwybod . . pum punt.

GWILYM: Pum . . ! (*chwibaniad*).

WAT: Mawredd annwyl!

IFAN: Oni ddwedaist y gallwn i roi 'nghrys arno?

GWILYM: Ond ble gythrel cawsoch chi afael ar bum punt?

IFAN: Wel . . man a man i ti wybod. Euthum ag oriawr dy fam i lawr i'r hen Cohen. . .

WAT (*yn taro'r bwrdd*): Dyna fe! Dyna lle daeth y stori allan. Fe welais Cohen yn siarad â Hopkins hanner dydd. Ac yr oedd yn rhaid i ti ddweud y stori i gyd wrth Cohen?

IFAN (*yn codi*): 'Ddwedais i ddim wrtho. . .

WAT: 'Elli di ddim cadw dy geg ynghau! A dyma Gwilym a minnau yn y cawl oherwydd na elli di ddisgyblu dy dafod.

GWILYM: Beth ddwedsoch chi wrtho? 'Ddwedsoch chi mod i'n mynd i stopio ci Hopkins i ennill?

IFAN: 'Rydw i wedi dweud na soniais i . .

GWILYM: Beth gwell ydych chi o wadu? Mae'r peth yn dod allan nawr. Ceisio chwilio ydym ni faint mae Hopkins yn wybod.

IFAN: Beth ddigwyddodd?

GWILYM: Beth ddigwyddodd! Fe welodd Hopkins fi yn mynd at y *kennel* y prynhawn yma, a fe wnaeth yn siŵr na chefais i ddim cyfle wedyn.

WAT: A'r cwbl oherwydd fy mod i wedi bod yn ddigon o ffŵl i wneud cymwynas â thi! Fi wedi

colli pum punt ar hugain, a Gwilym bum punt ar hugain arall.

IFAN: Ond ble cafodd Gwilym bum punt ar hugain?

GWILYM: Fe'u benthyciais o ddesc Hopkins. Dyna lle cefais i nhw!

IFAN: Ond . . ond . . dwyn oedd hynny!

GWILYM: 'Rwy'n leicio hynna oddi wrth yr un ddygodd *watch* mam.

IFAN: Ond benthycia honno a wneuthum. . .

GWILYM: Benthycia wnes innau! O, caewch eich ceg! Chi a'n tynnodd i'r picil hwn, a chi ddylai fod y diwetha' i bregethu.

WAT: Os bydda' i'n ddigon o ffŵl i wneud cymwynas eto, fe ellwch ordro càr yn barod i fynd â fi i'r *asylum*.

GWILYM: Ond beth ydw i'n mynd i'w wneud? Digon hawdd i chi, 'nhad, i siarad; dim ond mam sydd gennyh chi i'w hwynebu.

IFAN: Dim *ond* dy fam! Dim *ond* dy fam? Pryd wyt ti'n meddwl y clywa' i'r diwetha' am y *watch* yna?

GWILYM: Gadewch iddi ddweud beth a fynno. Beth gwaeth fyddwch chi? Ond pan ddaw Hopkins i wybod—a fe ddaw cyn gynted ag y cyrhaedda 'nôl o'r rasis—fe fydd y polis ar fy nhrac i.

IFAN: 'Wna fe ddim o hynny.

GWILYM: Na wna fe 'wir! Fe fyddwn yn cael sac yfory, beth bynnag, oherwydd tadcu.

IFAN: Ond 'aiff e ddim at y polis. Beth yw pum punt ar hugain iddo fe?

GWILYM (*yn croesi y tu ôl i'r burdd*): Rhowch fenthyg yr arian i mi, Wat!

WAT: Fi? Fi, i roi benthyg pum punt ar hugain, a newydd golli cymaint â hynny oherwydd lap-lap dy dad! A ble wyt ti'n meddwl y caf i'r arian? A fflat lot o *security* a elli di roi amdanynt, a thithau'n cael y sac fory! Na, 'chei di ddim ceiniog goch gennyf fi, 'y machgen i. Chwilia am ryw lo dwl arall; 'does neb yn mynd i wneud dam ffwl ohono' i ddwywaith mewn diwrnod.

GWILYM: O'r mawredd! Pwy eisiau i chi ddweud wrth Cohen oedd?

IFAN: Ond 'rwy'n dweud wrthyt ti . .

GWILYM: O, gadewch iddi! Beth gwell ydym ni o siarad? Edrychwch yma, Wat, os nad ydych chi'n mynd i fforcio allan i'm cael i o'r mès hwn, yna 'rwy'n mynd i gyffesu'r cwbl wrth Hopkins, ac os bydd *inquiry*, fe ddwedaf y cwbl yno.

WAT: O, fe wnei, wnei di?—y slechgi bach! (*Symud ato'n fygythiol.*) 'Chei di ddim dimai gen i, a gad i mi ddweud wrthyt, os tynni di f'enw i mewn i'r fusnes, fe fyddi wedi edifarhau cyn y cyrhaeddi di adre ar ôl gwneud hynny.

GWILYM: Ond chi a'm tynnodd i mewn i'r fusnes!

WAT: Dy dynnu di!—y diawl bach digywilydd! Un *hint* a rois i ti, ac ni allai ceffylau'r deyrnas dy gadw 'nôl.

IFAN: Ti, Wat, ddyfeisiodd y sgêm. . .

WAT: Cau di dy geg—petait yn ei gau yn amlach! . .

GWILYM: Fi yw'r un sy'n dod i drwbwl, ac fe ofalaf eich bod chi'n dod gyda mi.

WAT: Cerdd di allan lai gyda mei-ledi Hopkins! 'Hoffet ti i mi ddweud wrtho y cwbl a wn i am hynny? Gofyn iddi hi dy safio di! Rhed i'w chôl hi fel rhyw bomeranian bach, a chana grwndi fan'ny.

GWILYM (*yn codi ei lais*): Dyna ddigon am hynna!

WAT: Ie, mae'n debyg. Ond tynn di f'enw i i mewn i'r fusnes yma, a 'fydd e ddim digon o bell ffordd.

(*Egyr y drws, a saif Mrs. HOPKINS yno; ni ddywed neb air am ennyd.*)

AGNES: O! A ddeuais i i mewn ar amser lletchwith? (Fe gnociais y drws, ond 'chefais i ddim ateb, ac yr oeddwn yn clywed lleisiau.)

(*Ni ddywed neb air.*)

AGNES: Mae'n ddrwg gen i, ond 'rwyf am weld Gwilym am funud, wrtho ei hunan. (*Daw ymlaen y tu ôl i'r burdd.*)

WAT: Fe af i; 'rydw i wedi gorffen fy musnes yn y tŷ hwn. (*Wrth fynd*) A chofia di (*wrth GWILYM*) beth ddwedais i wrthyt ti, mei-lord.

(*Ennyd.*)

IFAN (*yn sylweddoli nad oes ei eisiau yntau chwaith*): Ie . . . wel . . . y . . . fe af i allan am dro. (*Tripia dros y mat neu rywbeth wrth fynd allan i'r chwith.*)

AGNES (*cyn gynted ag y bo'r drws wedi'i gau*): Gwilym, fe welodd rhywun ni yn y Belvedere neithiwr! Mae Myrddin wedi clywed.

GWILYM: Pwy ddwedodd wrtho?

AGNES: 'Dwn i ddim, ond y mae wedi clywed. 'Rwyt yn cael y sac yfory.

GWILYM: Fe gaf fynd cyn hynny os daw i wybod y cwbl.

AGNES: Y cwbl beth?

GWILYM: Fe fûm yn ffwl heddiw—euthum â phum punt ar hugain o'r ddesg i'w rhoi ar gi Wat. 'Ro'wn yn meddwl ei fod yn *cert*. A 'doedd e ddim, dyna i gyd.

AGNES: 'Ydy e ddim yn gwybod eto?

GWILYM: Nac ydyw; ond fe ddaw i wybod pan aiff e drwy'r arian ar ôl dod adre.

AGNES: 'Roedd e'n cyrraedd nawr pan oeddwn yn ymadael.

GWILYM: Wel, dyna'i diwedd hi! (*Eistedd ar sofffa neu rywbeth tebyg.*) Fe fydd y polîs ar fy nhrac i cyn nos.

AGNES (*yn eistedd wrth ei ochr*): 'Rwyf i o d'ochr di.

GWILYM: Beth gwell ydw i o hynny, os gŵyr e am neithiwr?

AGNES: Fe wn innau ddigon amdano ef a *barmaid* y Black Lion, petai'n dod i hynny.

GWILYM: 'Fydd hynny'n ddim lles i mi. 'Dydy hynny ddim yn mynd i'w rwystro i roi'r polîs ar waith.

AGNES: Na, ond y mae yna un peth allem wneud.

GWILYM: Beth?

AGNES (*yn cydio yn ei law*): Gwilym! 'Rwyt yn fy ngharu, on'd wyt? Fi yr wyt yn ei charu ac nid Morfudd, yntê?

GWILYM: 'Rwyf wedi dweud wrthyfch nad yw Morfudd yn ddim i mi.

AGNES (*yn cydio ynddo*): Edrych yn fy llygaid i! Paid ag edrych mor sarrug. Dywed wrthyf dy fod yn fy ngharu.

GWILYM (*ei olwg sarrug yn diflannu ychydig*): 'Rydw i wedi dweud hynny ddigon o'r blaen, Agnes.

AGNES: Ond mae gennyf reswm neilltuol dros ofyn heno; 'rydw i am fod yn hollol siŵr. 'Rydw i am dy glywed di'n dweud a'th freichiau amdanaf mai fi yw'r unig un yr wyt yn ei charu. (*Yn rhoi ei dwy fraich am ei wddf*) Fi yw'r unig un, yntê?

GWILYM (*yn ildio iddi*): Ie, Agnes. (*Cofleidiant yn hir.*)

AGNES: 'Rwy'n dy gredu nawr, Gwilym. (*Ennyd.*) 'Rwy'n anhapus difrifol gartre, Gwilym. 'Allaf i ddim dioddef rhagor. (*Dim ateb.*) 'Hoffet ti ddim ymadael â'r lle yma? 'Hoffet ti ddim petaem yn gallu bod fel hyn am byth?

GWILYM: Mae arnaf ofn y daw rhywun i mewn, Agnes.

AGNES (*yn sydyn ac yn daer iawn*): Gwilym, dere i ffwrdd gyda mi.

GWILYM: Ond beth am y boss?

AGNES: Fe fyddai ef yn eitha balch i gael fy ngwared i. Fe wyddost mor anhapus ydym. (*Ennyd.*) Meddwl am sut amser da y gallem ei gael gyda'n gilydd. *Jau ei*

GWILYM (*yn codi a symud cam i ffwrdd*): Ond beth ddwedai pobl?

AGNES: Pa wahaniaeth beth ddywed neb? Fe fyddwn ymhell oddi yma.

GWILYM: Ond . . ond . . Agnes . . 'feddyliais i erioed . .

AGNES (*yn sefyll o'i flaen yn erfyniol*): Ni'n dau, dim ond ni'n dau; ni fydd wahaniaeth am neb arall. Beth sydd i'n cadw ni yn y twll ofnadwy hwn?

GWILYM: Ond mae e'n siŵr o roi'r polîs ar fy ôl i oherwydd yr arian yna.

AGNES: Dyna pam 'rwy'n dweud wrthyt—dere, henô . . nawr! Mae'r càr gen i wrth y drws; y cwbl yn barod; ni fydd neb yn gwybod ein bod ni wedi mynd, na ble'r aethom ni. Gallwn drafailio drwy'r nos; byddwn ymhell erbyn y bore. Pa wahaniaeth am bolîs na neb arall erbyn hynny?

(*Ennyd. Y mae GWILYM yn amlwg bron rhoi i mewn. A i eistedd eto. Eistedd hi wrth ei ochr.*)

AGNES: Gellwn ddechrau byd mewn lle newydd. Dwed y doi di, Gwilym.

GWILYM: Ond . . ond . . (*Hi yn ei gusanu.*)

AGNES: 'Does dim ond i'w gael. Cyn pen tair awr yn y sports car fe fyddwn ymhell oddi yma . . wrthym ein hunain. 'Fydd dim eisiau i ni hidio am neb na dim wedyn. Gwilym, 'rwyf yn fy ngharu, on'd wyt ti? *fe awn!*

GWILYM (*yn sydyn*): O'r gorau, Agnes. Diwedd ar y lle yma, diwedd ar y dynion ar y dôl, diwedd ar y tips glo, diwedd ar geisio crafu ceiniogau at ei gilydd!

AGNES: Ni'n dau, Gwilym.

(*Cusan hir. Ond cyn bod y gusan wedi gorffen, egyr y drws a saif MORFUDD yno. Erys am eiliad heb iddynt ei gweld, a sieryd cyn eu bod wedi gwahanu.*)

MORFUDD: Very nice too!

(*Gwahanant, ond ni chyfodant. Daw hi ymlaen, ac â y tu ôl i'r burdd at y lle tân.*)

MORFUDD: Steil gorau Clark Gable a Jean Harlow! (*Ennyd.*) Gweld y càr tu allan, fe ddeuthum i mewn i weld beth oedd yn mynd ymlaen. 'Does dim gwahaniaeth gennyh, 'oes e? (*Ennyd.*) Efallai y dylaswn fod wedi cnocio, ond fe anghofiais wrth gwrs, 'dydw i ddim wedi fy nghodi yn ledi.

GWILYM (*wedi dod ato ei hun erbyn hyn; yn codi a mynd gam neu ddau ati*): 'Does gennyf ti ddim busnes i ddod i mewn fel hyn. . .

MORFUDD: Nawr, cyn dy fod di'n mynd ymhellach . .

GWILYM: 'Rwyf wedi dweud wrthyt ti o'r blaen . .

MORFUDD: Y cwbl wyf am wybod yw hyn—Mrs. Hopkins neu Agnes wyt ti'n ei galw hi heno? 'Rwy'n cofio mai Mrs. Hopkins oedd hi neithiwr, ond mae'n rhaid . .

GWILYM: Morfudd, a ei di allan yn ddistaw?

MORFUDD: 'Dydw i ddim yn gweld pam y mae'n rhaid i mi fynd. Os nad yw dy fam yma—a gellid meddwl nad wyt ti'n ffit i fynd o'i golwg hi—mae'n well i mi aros i'th gadw o grafangau pob gwraig briod sydd wedi blino ar ei gŵr.

AGNES (*yn codi*): 'Dydw i ddim yn mynd i ddiodef cael fy insylio gan neb. *hasan*

MORFUDD: Fe ellwch ddiodef neu beidio, 'does dim gwahaniaeth gen i. 'Dyw'r drws yna ddim wedi ei gloi.

AGNES: Mae *mutual passion* rhwng Gwilym a minnau, a 'dydyn ni ddim yn mynd i adael i syniadau hen ffasiwn chi a'ch sort i ddod rhyngom.

MORFUDD: Na; 'roedd yr hyn a welais o'r drws wedi profi hynny, hyd yn oed pe na bawn yn credu hynny o'r blaen.

AGNES: Nid plant heb wybod ein meddyliau ein hunain ydym ni. *yn Gwilym a minnau.*

MORFUDD: 'Rwy'n fodlon credu y gwyddoch chi eich meddwl eich hunan, ond mae'n amheus gen i a wŷr Gwilym hynny.

GWILYM: Morfudd, 'rwy'n begian arnat; paid â chreu mwstwr.

MORFUDD: Pwy sy'n gwneud mwstwr? 'Rwy'n siarad yn ddigon tawel, on'd ydw i?

GWILYM: 'Dwyt ti'n gwneud lles i neb wrth aros yma.

MORFUDD: 'Rwy'n gwneud lles i mi fy hunan, beth bynnag.

AGNES: 'Dydych chi damaid gwell o roi ffrwyn i'ch cenfigen oherwydd eich bod wedi colli Gwilym.

MORFUDD: Pwy sy'n dweud fy mod amdano? A ydy e gymaint â hynny o gael?

AGNES: Wedi'r cwbl, 'ellwch chi ddim dweud ei fod wedi actio yn anfoneddigaidd atoch chi.

MORFUDD: Efe wŷr hynny orau.

GWILYM: Morfudd, mae'n ddrwg gen i dy fod ti'n cymryd pethau fel hyn.

MORFUDD: Petai rhywun yn gofyn i mi, fe fuaswn yn dweud fy mod yn cymryd pethau'n syndod o ddidaro.

GWILYM: Petait yn gwybod y cwbl, 'fuasit ti ddim yn fy meio i.

MORFUDD: 'Dydw i ddim yn dy feio di. Ceisio dy rwystro di rhag gwneud ffŵl ohonot dy hun yr ydw i. Fe wn na allaf gystadlu â chotiau ffyr *@ cosmetics a sports car. . .*

AGNES: 'Dydw i ddim yn aros yma i scwablo fel hyn. Fe fydda' yn dy ddisgwyl yn y càr, Gwilym. (*Allan.*)

(GWILYM yn symud at y drws, a MORFUDD ar ei ôl.)

MORFUDD (*wedi newid yn llwyr*): Gwilym, paid â gwneud ffwl ohonot dy hun. Mae sôn amdanat ar hyd y pentre.

GWILYM: ~~Fe wn beth yr wy'n wneud yn iawn, a 'dydw i ddim am ddioddef dim rhagor oddi wrth dy genfigen di.~~

MORFUDD: A ydy'r hyn a fu rhyngom yn golygu dim i ti?

GWILYM: Nac ydy. A phaid â meddwl ei fod yn rhoi gafael i ti arnaf.

MORFUDD: Ond y *mae'n* rhoi gafael i mi; 'elli di na minnau mo'r help am hynny nawr.

GWILYM: Mae'r cwbl drosodd rhyngot ti a mi, a gorau i gyd po gyntaf y gelli sylweddoli hynny.

MORFUDD: Gwyn fyd na allwn gredu hynny.

GWILYM: Ond dyma fi'n dweud wrthyt ti, unwaith am byth. 'Rwy'n mynd.

MORFUDD (*yn cydio yn ei fraich*): Gwilym, gwrando. 'Elli di na minnau byth wahanu'r linc sy' rhyngom, faint bynnag ydym am wneud hynny. Mae arnat gyfrifoldeb na elli ei osgoi, ~~wy cyfrifoldeb mwyaf a all fod gan ddynd at ferch.~~

GWILYM (*yn araf*): Beth ddwedaist ti?

MORFUDD: Mae'n wir, Gwilym. 'Dydw i ddim wedi dweud wrth neb, a ~~'ddwedwn i ddim wrthyt ti heno, onibai fod yn rhaid i ti weld na elli di ddim mynd ar ôl y fenyw yna.~~ *Nel*

GWILYM: O, dyna hi! 'Rydw i wedi clywed am stori o'r fath yna o'r blaen. . (*Yn ei ryddhau ei hun ar ei gwaethaf.*)

MORFUDD (*yn mynnu ail-gydio ynddo a'i rwystro i fynd*): Mae'n wir, Gwilym. 'Ddwedwn i ddim o'r fath beth onibai ei fod yn wir. Rhaid i ti fy nghredu . . rhaid i ti. ~~Paid â mynd, er fy mwyn i. . .~~

GWILYM: 'Rwyf wedi cael digon ar dy stranciau di—dyma'r diwedd.

(*Fe'i rhyddha ei hun yn drws gl iawn, a phan fo hi'n ceisio ei ddilyn rhydd hwb iddi yn erbyn y burdd nes achosi iddi syrthio. A GWILYM allan gan slamio'r drws; cyfyd MORFUDD ei phen a gwaedda, "Gwilym, Gwilym!" Yna y mae'n torri allan i wylo'n ddilywodraeth. Cyn bod y pwl drosodd, cyfyd ac eistedd yn ddi-obaith wrth y burdd. Ymhen ennyd, daw pen IFAN i'r golwg drwy'r drws chwith. Edrych ef arni am ennyd, ac yna pesycha i dynnu ei sylw. Try MORFUDD ar unwaith, ond diflanna'r gobaith a enynnwyd pan wêl mai IFAN yn unig sydd yno. Dechrau wylo drachefn.*)

IFAN: Morfudd fach, beth sy'n bod?

MORFUDD: Mae e wedi mynd . . wedi 'ngadael . .

IFAN: Gwilym wyt ti'n feddwl? Dim ond mynd yng nghâr Mrs. Hopkins wnaeth e. Fe yw ei *chauffeur* hi nawr, wyddost. ~~Paid â chymryd arnat fel yna. 'Oedd e wedi addo mynd â thi i rywle heno, ynte? Dyna, dyna, ffe ddaw yn ôl yn y man.~~

MORFUDD (*wedi gwella ychydig*): A welsoch chi nhw'n mynd?

IFAN: Do, do. Dyna pam y deuthum i mewn. 'Wyddwn i ddim dy fod ti yma.

MORFUDD: 'Rwy'n mynd adre nawr, Ifan Hughes; peidiwch â dweud wrth neb am hyn, 'wnewch chi? 'Dydw i ddim am i neb wybod . . i wybod . . (*Yn torri i lawr eto.*)

(*Daw ENOC i mewn o'r dde.*)

ENOC: Beth sy'n bod yma? Morfudd fach, beth sy'n bod arnat ti dy fod yn wylo dy galon allan fel'na? (*Cyfyd hi ei hwyneb yn wylofus tuag ato.*) Dyna welliant! Beth bynnag a ddigwyddodd, 'dyw e ddim yn werth colli dagrau drosto.

IFAN: 'Dwn i ddim beth sy'n bod. Fe welais Gwilym . .

MORFUDD: Fi sy'n fabi, Enoc Jenkins; dyna i gyd. 'Rwy'n iawn nawr.

ENOC: Pwy fu mor angharedig â gwneud i ti lefain? Pwy bynnag oedd e . . (*Gan wenu*) 'Fu Ifan ddim yn gas i ti, do fe?

IFAN: Fi? fi? Oni ddwedais wrthyh chi mai Gwilym . . ?

MORFUDD: Mae'r cwbl drosodd nawr.

ENOC: Fe fyddai'n well i mi fod wedi aros yma i edrych ar dy ôl di, 'rwy'n gweld, yn lle dy adael di i ofal y bachgen Owen yna. 'Fûm i fawr gwell o fynd i'r sciath. Dim ond fi a Shincyn Tŷ Capel ddaeth yno, a 'fuasai fe ddim wedi dod onibai fod yn rhaid iddo agor y drws.

MORFUDD: 'Rwy'n credu yr af i adre. . .

ENOC: Gwell i ti faddio tipyn o'r llygaid yna cyn

mynd, neu fe fydd pawb a gwrddi yn gofyn beth sy'n bod, ac a barnu wrth y ffordd yr wyt ti am gelu'r peth oddi wrthyf i, 'fyddi di ddim am gael dy holi ar y ffordd adre.

MORFUDD: Peth i mi fy hun yw. . .

ENOC: Ie, ie, 'merch i; cadw di'r peth i ti dy hun, os yw'n well gen ti. (*Cnoc ar y drws.*) Cerdd i weld pwy sydd yna, Ifan. (*IFAN yn mynd.*)

MORFUDD: Fe arhosa' i fan hyn allan o'r golau os daw rhywun i mewn. (*Yn symud i'r sofffa.*)

(*Clywir llais IFAN y tu allan.*)

IFAN: Ydy, mae e i mewn; nawr y daeth e adre o'r sciath.

(*Daw HOWELLS a HOPKINS i mewn, ac IFAN ar eu hól.*)

HOWELLS: Morfudd, beth wyt ti'n ei wneud yma? 'Roeddwn yn meddwl dy fod yn y pictiwrs.

MORFUDD: Na, 'euthum i ddim wedyn. Fe ddeuthum i fyny yma i weld Gwilym.

HOPKINS: Ie, ble mae Gwilym? Fe yr ydym am ei weld. A ydy e yn y tŷ? (*Wrth IFAN*) Os yw, ewch i'w mofyn ef yma.

IFAN: N—na. 'Dyw e ddim yn y tŷ.

HOPKINS: Ble mae e, ynte?

IFAN: Wel . . wel . .

MORFUDD: Yn ôl ei arfer, mae e yng nghwmni Mrs. Hopkins.

HOPKINS (*wrth IFAN*): A ydy hi wedi bod yma hefyd?

IFAN: Do; fe ddaeth yma pan oedd Gwilym a Wat yma gynnuau fach. . .

HOPKINS: Yn ceisio dyfeisio sgêm newydd, ai e? Neu efallai yn cynnal incwest ar y sgêm a aeth ar gyfeiliorn heno? Wel, ble mae Gwilym a hithau nawr?

MORFYDD: Maen' nhw wedi mynd allan gyda'i gilydd.

HOPKINS: Wel, 'fydd e ddim allan gyda Mrs. Hopkins yn hir. Howells, dwedwch beth ddaeth â ni yma heno.

HOWELLS: Enoc Jenkins . .

ENOC: A fyddai'n wahaniaeth gennych petawn yn cistedd? 'Rwyf wedi bod ar fy nhraed am dipyn, a 'dydw i ddim mor ifanc ag yr oeddwn, wyddoch. (*Eistedd ar y gadair ger y tân.*) Fe fyddai man a man i chithau cistedd—fe ellwch ddweud eich neges llawn cystal, mae'n debyg. 'Does yna ddim un rhinwedd mewn bod yn anghyfforddus heb reswm.

(*Eistedd HOWELLS, ond y mae HOPKINS yn sefyll ar ei draed. Cerdd o gwmpas yn ystod yr olygfa ddilynol.*)

IFAN (*yn amlwg am ffoi*): 'Fyddwch chi ddim am fy nghwmni i, mae'n debyg. Fe af i gwrdd â Mari. . .

HOPKINS: Bydd, fe fydd eich eisiau chithau hefyd.

IFAN: O! (*Cilia oddi wrth HOPKINS i ben pella'r ystafell.*)

HOWELLS: Mae peth difrifol iawn wedi digwydd, Enoc Jenkins. Mewn gwirionedd, mae Mr. Hopkins wedi bod yn garedig iawn i ddod ataf fi yn lle mynd at y polis. 'Roedd ganddo ddigon i'w gyfiawnhau i fynd at y polis yn syth.

ENOC: Wel, ewch ymlaen. 'Allaf i ddim meddwl am ddim a wneuthum i'n ddiweddar a allai fy rhoi yng ngafael y gyfraith.

HOWELLS: Fe gollodd bum punt ar hugain o'i ddesg heno, ac fe wŷr pwy aeth â nhw, a beth wnawd â nhw. A'r lleidr—ie, lleidr, canys dyna beth ydyw—yw Gwilym.

ENOC (*ar ôl ennyd, yn dawel*): Gellir cymryd yn ganiataol eich bod yn sylweddoli beth ydych yn ei ddweud, Howells?

HOWELLS: Ydwyf yn iawn, Enoc.

ENOC: Mae gennych brofion?

HOWELLS: Oes, digon; fe wyddom pam y dygodd yr arian, a beth wnaeth â nhw.

ENOC: Er mwyn rhoi arian ar y rasis, mae'n debyg?

HOWELLS: Ie, fe roddodd y cwbl ar gi Wat. Gellir profi hynny.

ENOC: A wyddost ti, Ifan, a oes gwir yn hyn ai peidio?

IFAN: Na wn i. Peidiwch â gofyn i mi. 'Dydy Gwilym yn dweud dim wrthyf i.

HOPKINS (*yn cerdded at IFAN a phwyntio ato*): A oedd gennych chithau ddim pum punt ar y ras hefyd?

IFAN: Na . . y . . hynny yw, ^{^ ^ ^ ^ ^}does gan hynny ddim i wneud â chi.

HOPKINS: Gofynnwch iddo ble cafodd e'r pum punt.

ENOC: 'Chafodd Ifan ddim pum punt. A ydych chi am ddweud ei fod e wedi dwyn hefyd?

HOPKINS: Gofynnwch iddo.

ENOC: A ydych chi'n mynd i roi'r gyfraith arno yntau?

HOPKINS: Nac ydw. Rhyngoch chi a hynny, fel y ffeindiwch pan glywch chi'r gwirionedd. Ond hyn a wn, bod yna sgêm rhwng Wat a Gwilym i rwystro 'ngli i i ennill, a bod y ddau ac Ifan wedi rhoi arian mawr ar gi Wat, a bod Gwilym wedi dwyn pum punt ar hugain o'm harian i i'r pwrpas.

ENOC: A ydy hyn yn wir, Ifan?

IFAN (*yn hanner gweiddi*): 'Rydw i wedi dweud na wn i ddim am y peth.

ENOC: O'r gorau; paid â chodi dy lais. Ni ddaw yr un lles o hynny.

HOWELLS: Fe allaf i dystio ei fod yn wir, Enoc. Ac i ddweud y gwir, fe gefais gymaint syndod â chithau.

ENOC: 'Allaf i ddim dweud ei fod yn llawer o syndod i mi. Os yw eu holl fryd ar bethau o'r fath, yna maent yn sicr o gael arian o rywle.

HOWELLS: Y rheswm y daethom ni yma yw hyn. Mae Mr. Hopkins yn fodlon peidio â phroseciwtio—i adael y peth i fod, a'i gadw yn ddistaw.

ENOC: Yn fodlon i hynny?

HOWELLS: Ar un telerau.

ENOC: O, y mae ganddo delerau, oes e?

HOPKINS: Oes, yn naturiol. 'Does gen i 'run rheswm dros wneud peth o'r fath heb . .

ENOC: Heblaw ei fod yn talu'r ffordd i chi? Nac oes, yn siŵr.

HOWELLS: Dyma chi eto, Enoc, yn ei gwneud yn galed i mi.

ENOC: Pam? 'Wneuthum i ddim ond dweud nad oeddwn yn disgwyl iddo wneud cymwynas â mi heb gael rhywbeth yn ôl.

HOPKINS: Peidiwch â gwastraffu rhagor o amser, Howells. Dyma'r telerau, Enoc Jenkins. Os ydych yn fodlon gwneud yr hyn a ofynnais i neithiwr—gwerthu'r cae yna i mi—yna 'rwyf innau'n fodlon anghofio yr hyn a wnaeth Gwilym.

ENOC: 'Roeddwn yn rhyw hanner dychmygu mai rhywbeth fel yna oedd yn eich meddwl.

HOPKINS: Wel, beth amdani?

HOWELLS: 'Does neb o bobl y capel yn cyd-fynd â'ch safbwynt chi, Enoc.

ENOC: O, oes; y mae yna rai, ond maen' nhw'n llai na 'feddyliais i.

HOWELLS: Mae'n berffaith sicr, os gwrthodwch chi, yr â'r capel a'i ben iddo.

ENOC: Fe bwysais i'r cyfan yna neithiwr, Howells.

HOWELLS: Ond 'wnewch chi ddim gwrthod cyfle fel hwn i gael Gwilym, eich ŵyr, yn rhydd?

ENOC: A ydych chi'n meddwl o ddifri, Howells,

beth ydych yn ofyn i mi ei wneud? Yr ydych yn gofyn imi fodloni sefydlu yn y pentre hwn, wrth ddrws y capel, y peth achosodd i Gwilym, wneud yr hyn a wnaeth. 'Rwy'n adnabod Gwilym yn dda; mae'n rhaid bod yna symbyliad cryf dros ben wedi'i gorddi i droi'n lleidr.

HOWELLS: Syrthio i demtasiwn wnaeth e—rhaid i chi beidio meddwl amdano fel lleidr.

ENOC: Chi ddefnyddiodd y gair, Howells, a dyna'r gair iawn os yw Gwilym wedi lladrata. A dyna'r pwynt. Yr ydych chi'n gofyn i mi roi noddfa i'r dylanwad drwg a ddaeth i'w fywyd, o dan ei drwyn fel petai. Os gwnaeth y peth unwaith, fe'i gwna ddwywaith os bydd y dylanwad yma.

HOPKINS: Ond yr wyf yn fodlon ei gymryd yn ôl a'i drystio eto.

ENOC: Ie, a chadw llygad gofalus arno o hyn allan, debyg iawn. Y gwir yw, mae e wedi syrthio unwaith, a 'ellwch chi na minnau ddim newid hynny, gwaetha'r modd.

HOPKINS: Felly yr ydych yn barod i aberthu Gwilym i'ch syniadau hen ffasiwn?

ENOC: Gwilym sydd wedi ei aberthu ei hunan; 'doedd gen i ddim i'w wneud â'r peth.

HOPKINS: Ond y mae gennych gyfle i'w safio.

ENOC: 'Dydw i ddim yn credu y gwnawn ei safio trwy wneud yr hyn ofynnwch i mi.

HOPKINS: Yna fe gaiff ddiodef canlyniadau eithaf ei drosedd. Fe fydd yn nwylo'r polis heno. (Try at IFAN.) A oes gennych chi syniad ble mae e?

droi'n lleidr

IFAN: Nac oes gen i. Fe ddwedais . .

MORFUDD: Fe wn i ble mae e. (*Syndod i bawb oherwydd eu bod wedi anghofio'i phresenoldeb hi.*) Mae e wedi mynd i ffwrdd gyda Mrs. Hopkins. . . (*Dywed hyn mewn llais hollol naturiol, ac oherwydd hynny y mae'r effaith yn fwy.*)

HOPKINS: Beth? . . I ffwrdd . . ?

HOWELLS: Morfudd, gofala beth yr wyt ti'n ei ddweud.

MORFUDD: Fe aethant yn ei châr hi ers spel yn ôl. Maent ymhell erbyn hyn.

HOWELLS: A ydy hyn yn wir, Morfudd?

MORFUDD: Pa reswm ydych chi'n feddwl sy' gen i dros lunio celwydd? 'Dydy hyn yn ddim syndod iddo fe (*yn pwyntio at HOPKINS*). Dyna'r unig ddiwedd a all'sai fod i'r hyn yr oeddynt yn ei gario ymlaen, ac yntau'n gwybod hynny.

HOPKINS: Ble'r aethon' nhw? 'Wyddoch chi?

MORFUDD: Na wn i, ond maen' nhw'n sicr o fynd lle na ellwch chi eu dal.

HOPKINS: Fe gawn ni weld am hynny. (*Yn codi ei het ac yn mynd at y drws.*) Y polis a neb arall fydd ar waith o hyn allan. (*Allan.*)

ENOC: Nid dylanwad Hopkins yw'r unig un drwg yn y lle yma. Druan o Gwilym—yng nghraf-angau'r wraig yn awr! (*Ennyd.*) Mae'n well i chi fynd â'r ferch yma adre, Howells. Mae hi wedi bod trwy lawer heno.

HOWELLS: Ond 'dydw i'n deall dim o'r hanner. Ble daethost ti . . ?

Ifan

ENOC: Gadewch iddi fod heno. Holwch dipyn arni yn y bore, ac fe gewch wybod mwy efallai, a gobeithio y dewch i weld pethau'n gliriach wedyn.

HOWELLS: 'Rwy'n gweld un peth yn glir nawr. 'Dwyt ti, Morfudd, ddim i gyfathrachu rhagor â Gwilym—'wyt ti'n clywed?

MORFUDD: Ydw, 'rwy'n clywed.

HOWELLS: 'Rwyf wedi bod ormod o lawer ar hyd y lle yn ei gwmni. Ond ar ôl y newydd diwethaf yma—fe a Mrs. Hopkins . .

ENOC: Ie; mae'n rhaid bod yna bwerau go gryf yn gweithio i wneud i Gwilym dorri dau o'r gorchmynion yr un diwrnod. Nos da, Howells.

HOWELLS: Nos da. (*Yn mynd.*)

(*Ni ddywed IFAN air.*)

ENOC: Wel, a oes gennyf ti ddim i'w ddweud? Mae Gwilym yn fab i ti, on'd yw e?

IFAN: 'Rwy'n methu dirnad . . methu dirnad . .

ENOC: A ble cefai't ti bum punt i'w roi ar gi Wat?

IFAN: Y . . y . . 'rois i ddim. . . Celwydd noeth yw hynny. . .

ENOC: O, wel, fe gaiff Mari setlo â thi. Druan ohoni! Os anghofiodd hi ei gofidiau yn y pictiwr's, fe fydd digon yn ei disgwyl adre heno.

*Yphydig i'w hysbysu ei
disgwyl adre o'r plectwm heno.*

LLEN.

ACT III

Prynhawn trannoeth. IFAN yn eistedd wrth y bwrdd yn darllen papur, neu'n hytrach yn ceisio ei ddarllen ac yn methu cadw ei sylw arno. GWILYM yn eistedd ar y gadair wrth y tân. Distawrwydd am ychydig wedi i'r llen godi.

GWILYM (*yn codi'n sydyn ac yn mynd at y ffenestr*): O'r mowredd! Dyma fywyd! (*Yn tynnu sigaret allan ac yn ei chynnau.*) Os af i allan, mae pawb yn edrych arna' i fel petai cynr ar fy mhen i—ac fel petawn yn dechrau tyfu cynffon fforchog. (*Yn ôl at y tân.*) Mae'r tŷ yma'n waeth na charchar! (*Eistedd.*)

IFAN: Cerdd allan i'r ardd-at dy dadcu.

GWILYM: Ie, i Neli drws nesa gael hwp'o'i phig dros y wal a holi a chroesholi'n ddiiddiwedd!

IFAN: Wel, 'dwyt ti damaid gwell o fentio dy dymer arna' i.

GWILYM: 'Dydw i ddim yn fentio 'nhymer arnoch chi.

IFAN: Beth arall wyt ti'n ei wneud?

GWILYM: Beth wn i!

(*Daw ENOC i mewn o'r ardd.*)

ENOC (*o'r drws*): A wyt ti'n gwybod, Ifan, ble mae'r rhaw fach sydd gen i at briddo'r tato?

IFAN (*yn swta*): Na wn i ddim.

ENOC: Fe fûm yn ei hiwsio prynhawn ddoe, ac fe allwn dyngu fy mod wedi ei rhoi yn y sied.

IFAN: Mae hi fan'ny eto, ynte.

ENOC: Dyna lle 'rwyf ti'n rong. Nawr y deuthum i oddi yno wedi chwilio pob cornel. A wyt ti'n siŵr na fuost ti ddim yn ei hiwsio bore heddiw? Fe fuost . .

IFAN (*yn torri ar ei draws*): 'Fûm i ddim yn cydio ynddi o gwbl.

ENOC: 'Welaist ti, Gwilym, ddim ohoni, mae'n debyg?

GWILYM (*yn swta*): Ble 'rych chi'n meddwl y gwelais i hi?

ENOC: Na, na; 'dyw rhaw fawr yn dy lein di.

IFAN: O, rhowch lonydd iddi nawr. Pa cisiau mynd allan i'r ardd sydd arnoch chi'r prynhawn yma?

ENOC: Beth gwell fyddaf i o aros yn y tŷ i'ch helpu chi i gynnal cwrdd Cwacers? Beth sy'n bod arnoch chi'ch dau? 'Rydych mor groendenau â dau blentyn a'r ddannodd arnynt.

GWILYM: Os dechreuwch chi bregethu . .

ENOC: 'Dydw i ddim yn mynd i bregethu, 'machgen bach i.' Mae'n well gen i gadw fy anadl at bwrpas arall. 'Does gen i ddim gormod o anadl i'w gael y dyddiau hyn.

GWILYM: 'Dydy'r fusnes hwn o ddim gwahaniaeth i chi—'dydy e ddim gwahaniaeth i neb ond i

mi. Chi'n clywed? 'Dydych chi ddim i wthio'ch pig i mewn.

ENOC: 'Wna i ddim, Gwilym bach. 'Rwyf wedi byw yn ddigon hir i ddysgu digon o ddoethineb i wybod gwell na gwthio fy nhrwyn i'th badell di na phadell neb arall. Fe af i allan i'r ardd a'ch gadael chi ati, beth bynnag yr oeddech yn ei wneud.

(*Yn ystod y frawddeg olaf, daw MARI i mewn o'r dde.*)

MARI: Arhoswch, 'nhad.

ENOC (*o'r drws*): Beth sy'n bod?

MARI: Mae'n well i chi glywed . .

GWILYM (*ar ei draed*): Os ydych chi'n mynd i ddechrau eto, mam, 'rwy'n mynd allan, a 'ddof i ddim 'nôl.

MARI: Saf fan lle 'rwyf ti. A oes un ohonoch chi'ch tri yn gwybod rhywbeth am oriawr aur nwnawl?

ENOC: Pam?

MARI: Mae lleidr wedi bod yn y tŷ yma; mae'r oriawr wedi mynd o'r drôr yn fy nodrefnyn i ar y llofft.

(*Mae GWILYM wedi eistedd eto; IFAN yn ceisio dangos diddordeb, ond y mae'n methu edrych ar MARI.*)

ENOC: A wyt ti'n siŵr?

IFAN: Ti sydd wedi'i rhoi o'th law yn rhywle ac yn methu cofio ymhle.

MARI: Gwranddo, Ifan. Fe'i gwelais hi yn y drôr

bore ddoe, ac ni fu fy nwylo i'n agos ati wedyn, ond fe fu rhyw ddwylo blewog yng ngafael â hi.

IFAN: Y . . y . . ble 'roeddit ti'n ei chadw?

MARI: 'Roeddit ti a phawb arall yn y tŷ yn gwybod hynny cystal â minnau. (*Ennyd.*) Wel, a oes gan neb ohonoch ddim i'w ddweud? (*Ennyd arall.*) (*Wrth GWILYM*) A fu dy ddwylo di o hyd iddi?

GWILYM (*yn codi a siarad yn wyllt*): Dyna fe, drwgdybiwch fi! 'Dydw i ddim wedi gweld yr hen beth. I beth y buaswn i yn ei mofyn hi?

MARI: I gael swancio ar hyd Llundain neu ble bynnag yr oeddit yn mynd gyda'r butain yna. . .

ENOC: Mari fach . .

GWILYM: Mam, dyna ddigon . .

MARI: Digon, ai e?

GWILYM: Ie, hen ddigon; 'rwy'n dweud wrthyh chi. 'Dydw i ddim yn mynd i ddiodeff rhagor oddi wrthyh chi na neb. . .

MARI: Fe fydd yn rhaid i ti ddiodeff cryn dipyn eto, 'ngwas i.

GWILYM: Pam na ddrwgdybiwch chi rywun arall?

MARI: Ble mae hi gen ti, Gwilym?

GWILYM (*yn uwch fyth*): 'Dydy hi ddim gen i. 'Welais i mohoni. Pam na chredwch chi fi? Nid fi yw'r unig un oedd ag arian ar y ras yna ddoe. 'Roedd gan 'nhad bum punt. Holwch dipyn arno fe. 'Rwy'n mynd allan; mae'n well gen i ddiodeff gweld pobl yn edrych arna' i na diodeff awyrgylch

y tŷ hwn—'feiddia nhw ddim fy nghyhuddo i, beth bynnag. (*Allan i'r dde.*)

(*Ennyd.*)

ENOC: Druan o Gwilym! Fe af i ymlaen â'm gwaith yn yr ardd. 'Wna innau yr un lles yma, hyd y gwela' i. (*Allan i'r ardd.*)

MARI (*ar ôl ennyd: wedi newid ei llais yn awr*): 'Oedd Gwilym yn dweud y gwir, Ifan?

IFAN: Y gwir am beth?

MARI: Fod gen ti bum punt ar y ras ddoe.

IFAN (*yn codi*): Ble andras 'rwy'ti'n meddwl y cefais i bum punt? 'Rwy't yn fy nrrwgdybio i nawr. 'Rwy'n mynd lawr i'r sgwâr. (*Â at y drws.*)

MARI: Ifan! (*Nid yw ef yn troi.*) Ifan! Dere 'ma. 'Wyt ti wedi colli pob mymryn o ddynoliaeth sydd ynot ti? (*IFAN yn aros ac yn troi.*) At bwy yr aethost ti â'r oriawr yna?

IFAN: Oni ddwedais i . . ?

MARI: 'Rwy'n gwybod nawr. (*Yn mynd at y burdd ac yn eistedd.*) Paid â gwadu rhagor—'does dim eisiau i ti ddweud dim. Yr unig beth o werth oedd ar ôl yn y tŷ—yr unig beth! Ac fe aethost ag ef i gael arian i'w roi ar y cŵn. (*Yn torri i lawr ac yn wylo.*) Och fi, fy mod wedi byw i weld sut beth—fy nheulu fy hunan yn fy mlingo—yn fy mlingo o bopeth. A minnau wedi trysori honna trwy'r blynyddau a'i chadw—ei chadw a'i thrysori, pan allwn fod wedi prynu bwyd a dillad â hi—wedi gorchfygu'r demtasiwn bob tro. Wedi mynd . .

wedi mynd—i'r cŵn a'r brain. (Beth ddwedai nwnawl, druan; beth ddwedai fe!

(*Yn ystod yr uchod mae IFAN wedi bod yn sefyll yn anesmwyth iawn; yn methu gwybod beth i'w wneud, ac eto a digon o deimlad i beidio â'i gadael. Yn awr, daw yn ôl yn araf.*)

IFAN: Mari, Mari. Paid â chymryd arnat fel'na. Fe'i caf yn ôl i ti—caf ar fy ngwir. Dim ond ei benthyca a wnes. (*Dim ateb.*) 'Fuaswn i ddim wedi gwneud hynny onibai fy mod yn credu nad oedd siawns colli.

MARI: Y peth olaf—wedi mynd—wedi mynd!

IFAN: Ond fe'i caf yn ôl i ti—caf, Mari. Yr arian cyntaf a enillaf—fe'i mynnaf yn ôl i ti. Fe gaf dip gan rywun cyn bo hir.

MARI (*yn codi'i phen*): 'Wyt ti'n beiddio sôn am fetio eto, a thithau wedi gwneud hyn?

IFAN: Beth wyddwn i? 'Rown i'n meddwl bod y peth yn saff, ac y gallaswn roi'r arian 'nôl cyn i ti weld ei heisiau, ac y cawn ddigon o arian i gael y gôt newydd yna yr wyt wedi sôn cymaint amdani. 'Rown i'n meddwl popeth o'r gorau, Mari.

MARI: I ble'r aethost ti â hi?

IFAN: At Cohen.

MARI: Faint gefaist ti amdani?

IFAN: Pum punt.

MARI: Rhaid i ti ddod lawr gen i nawr i ddweud wrtho am beidio â chael gwared arni hyd nes y cawn y cyfle i gael arian i'w phrynu 'nôl. Duw yn unig a wŷr ble cawn ni nhw.

IFAN: Y . . y . . y . . fe af i lawr fy hunan.

MARI: Fe ddof i gyda thi. Fe gaiff e wybod mai fy eiddo i oedd hi, ac nad oedd ganddo fusnes i'w chymryd heb ganiatâd oddi wrthyf.

IFAN: Beth gwell fyddi di . . ?

MARI: Aros di—fe gei di weld. ('Rwy'n mynd i wisgo fy nghôt.

IFAN: Ond, Mari . .

MARI (*wrth fynd allan i'r chwith*): Paid â mynd o'r fan yna hyd nes y deuaif yn ôl.

(*IFAN yn cerdded yn ôl a blaen. Cnoc ar y drws; IFAN braidd ag ofn mynd i'w agor. Yna'n mynd. Daw yn ôl yn siarad â MORFUDD.*)

MORFUDD (*y tu allan*): 'Ydy Gwilym yma?

IFAN: Na; mae e newydd fynd allan . . y . . am dro.

MORFUDD: I ble'r aeth e?

IFAN: 'Wn i ddim; ddwedodd e ddim.

MORFUDD: 'Fydd e'n hir?

(*Daw MARI i mewn.*)

MARI: O, sut wyt ti, Morfudd?

MORFUDD: 'Rwy'n olreit. 'Rydw i am weld Gwilym.

MARI: Fe aeth allan am dro. 'Roeddwn yn meddwl bod dy dad wedi dy rybuddio . .

MORFUDD: 'Does dim gwahaniaeth gen i. 'Rwyf am weld Gwilym ar unwaith.

MARI: Mae croeso i ti aros yma hyd nes y daw yn ôl, ond mae Ifan a minnau yn mynd i lawr i . .

(IFAN yn gwneud ystumiau) . . i'r dre am ychydig. Aros yma neu cerdd allan i'r ardd at 'nhad.

MORFUDD: Diolch. Fe eisteddaf man hyn am ychydig i gael fy ngwynt yn ôl—'rwyf wedi brysio tipyn yma. Fe af allan i'r ardd wedyn, efallai.

MARI: O'r gorau. Fel y mynnot. Dere, Ifan.

(MORFUDD yn eistedd wrth y bwrdd ac yn agor ei bag llaw, a thynnu allan yr offer at bowdro'i thrwyn, etc. Pan fo wrth y gorchwyl, daw pen OWEN i'r golwg drwy'r drws chwith.)

OWEN (ar ôl edrych arni am ennyd): Ychydig bach yn rhagor ar yr ochr chwith i'r trwyn. Fe allwn i feddwl, a barnu yn hollol fel *amateur*, fod yna bishyn man yna heb gael ei siâr iawn. (Erbyn hyn daw i mewn.)

MORFUDD (yn mynd ymlaen â'r gwaith ar ôl ei start gyntaf): Mae'n beth od fel y mae'n rhaid i ni gwrdd bob tro y dof i yma.

OWEN: Wel, i ddweud y gwir, Morfudd—a 'dydw i ddim yn rhoi i mewn i George Washington yn y gelfyddyd galed honno—'does dim byd yn od ynddo y tro hwn. Fe'th welais yn dod i mewn; fe welais nwnawl a modryb yn ei heglan hi i gyfeiriad y dre, ac fe ddeuthum i mewn i ddal pen rheswm â thi. Dyna oedd yr *idea*, beth bynnag.

MORFUDD: Fe ddylwn deimlo'n *flattered*, 'rwy'n siŵr.

OWEN: Mae dy ffordd di o ddweud hynyna yn profi nad wyt ti ddim. Na hidia, fe ddof i ben heb

weniaith yn iawn, ac nid yw gweniaith yn bwynt cryf gennyt ti, chwarae teg i ti.

MORFUDD: Wel, nawr te, wedi cael gwared ar y sglein oedd ar fy nhrwyn, 'rwy'n barod i wrando arnat. I beth yr wyf yn ddyledus am yr holl sylw yma ar dy ran?

OWEN: Wel, i ddweud y gwir wrthyf, 'dyw e ddim yn bwnc rhwydd iawn i'w agor.

MORFUDD: Dwed, 'wyt ti'n gwybod ble daliwyd y ddau yna neithiwr?

OWEN: 'Rochr hyn i Gaerdydd yn rhywle.

MORFUDD: Pa amser oedden nhw'n ôl yma?

OWEN: Chwap gyda hanner nos, yn ôl y glonc. 'Chawson' nhw fawr o sport, do fe? (*Dim gair oddi wrth MORFUDD.*) Ie; efallai nad wyt ti ddim yn barod i gydfynd ar y pwynt yna. Beth bynnag am hynny . .

MORFUDD: Beth wnaeth Hopkins iddi hi?

OWEN: 'Does dim o'r manylion wedi dod allan eto, ond yn ôl pob hanes, fe'i clymodd hi, draed a dwylo, wrth bedwar post y gwely, ac y mae i fyw ar fara a chawl dŵr am bythefnos. Wedyn . .

MORFUDD: Mae'n teilyngu hynny a rhagor. Petawn i'n cael dyfeisio cosb iddi . .

OWEN: Mae'n debyg y byddit ti, 'run fath â chanlynwyr Hitler, yn meddwl am *gastor oil* neu rywbeth cyffelyb. 'Ddychmygais i ddim dy fod mor waedlyd dy anian.

MORFUDD: 'Wyt ti'n meddwl y parha hi a Hopkins i fyw gyda'i gilydd ar ôl hyn?

OWEN: Pam lai? 'Wnaiff digwyddiad bach fel hwn ddim gwahaniaeth.

MORFUDD: Owen, mae gennyf ryw syniadau rhyfedd yn dy ben. 'Wyt ti'n dweud hyn o ddifri?

OWEN: Ti sy'n mhell ar ôl yr oes, Morfudd fach. 'Dwyt ti ddim yn sylweddoli eto sut y mae Hopkins a'i sort yn dewis gwraig. Mae dy syniadau di am foesoldeb *out-of-date*, Morfudd, flynyddoedd *out-of-date*. Fe feddyliodd Hopkins ryw ddiwrnod y byddai fan a man iddo briodi; 'roedd e'n meddwl y gwnâi—beth yw ei henw hi?—Agnes—y tro cystal â neb arall, os meddyliodd e am y peth o gwbl. Mae e'n eitha bodlon iddi gael ei sbort, os caiff e'i sbort ar yr un pryd . . . a . . . wel, dyna hi. Wrth gwrs, mae rhedeg bant gyda dyn arall yn mynd ychydig yn rhy bell, ond trwy lwc, fe'u daliwyd cyn iddynt fynd ymhell iawn. Ac y mae pawb yn y pentre yn ddigon cyfarwydd â gweld Gwilym a hithau yn y càr gyda'i gilydd, a mi fydd y peth wedi tawelu'n union.

MORFUDD: 'Ydy dy syniadau di am bethau o'r fath *up-to-date*?

OWEN: Na; 'fuaswn i ddim yn barod i ddweud hynny.

MORFUDD: 'Rwyt yn siarad fel petait yn cyd-fynd â phobl o'r teip yma.

OWEN: Fe allaf ddeall eu syniadau heb gyd-fynd â hwy.

MORFUDD: Wel, 'dallaf i ddim. 'Rwy'n credu y dylai teip fel yna gael eu herlid allan o'r pentre. . .

OWEN: Medde hi, gan osod ei hunan yn farnwr arnynt! Edrych yma, 'dydw i ddim am gwympo mâs a thi heno. . .

MORFUDD: Pam? Dyna dy holl waith, onid e?

OWEN: O, na; 'rwy'n cwympo mâs a llawer o bobl eraill hefyd yn ystod y dydd. Ond, a gawn ni adael y pwnc yna am eiliad? Mae yna bwnc arall yr wyf am draethu arno cyn y daw neb i mewn.

MORFUDD: 'Rwy'n glustiau i gyd.

OWEN: Ie; wel, mae dy ran di o'r fusnes yn eithaf rhwydd—'does gen ti ddim ond gwrando. Rhaid i mi chwilio am eiriau. . .

MORFUDD: 'Rwyt yn ddigon cyfarwydd â gwneud hynny.

OWEN: Ond y mae yna wahaniaeth rhwng geiriau a geiriau. . .

MORFUDD: Oes e?

OWEN: Oes. A nawr, paid â thorri ar fy nhraws i ragor. 'Wyddost ti beth wyf yn geisio ei wneud?

MORFUDD: Na wn i wir.

OWEN: 'Rwy'n ceisio ffeindio'r geiriau iawn i roi cynnig priodas i ti.

MORFUDD: Owen!

OWEN: Ie; 'rown i'n meddwl y cait ti start. Ond cistedd di'n dawel nawr, fe ddaw'r geiriau yn y man.

MORFUDD: Owen, paid â . . .

OWEN: Edrych yma. Rhaid i ti adael i mi wneud y peth mewn steil—'chlywais i ddim sôn am broposal mwy llipa erioed.

MORFUDD: 'Feddylais i erioed. . .

OWEN: Na, 'rwy'n gwybod—'fuais i erioed yn rhyw fforward iawn. Rhyw guddio fy ngolau dan lestr. . .

MORFUDD: Ond, Owen . .

OWEN (*wedi newid yn llwyr*): Morfudd, gwrando. (MORFUDD *yn codi ac yn mynd i'r dde.*) Rhaid i ti wrando. 'Rydw i wedi cael cynnig job yn Llundain, a rhaid i mi fynd. 'Ddoi di gen i? 'Rydw i wedi bod yn dy garu oddi ar i ti roi mwydyn lawr fy nghefn yn yr ysgol 'slawer dydd—efallai nad wyf wedi dangos hynny mewn rhyw ffordd foddhaol iawn. 'Chefais i fawr o gyfle—mae cymaint o rai eraill wedi bod yn hofran o'th amgylch—rhai oedd a llawer mwy o steil na mi. Ond 'rown i'n byw mewn gobaith o hyd.

MORFUDD: Ond, Owen, 'doedd gen i 'run syniad . .

OWEN: [Petawn i wedi cael y job yma yng nghynt buaswn wedi gofyn i ti cyn hyn, ond nawr, 'fedra i ddim mynd heb wybod p'un a ddeui di ar fy ôl i yno ai peidio.] 'Rwy'n gwybod mai canlyn o hirbell yr ydwyf wedi'i wneud, ond 'rown yn meddwl dy fod yn deall.

MORFUDD: Sut gallwn i ddeall, Owen bach? Sut gallwn i?

OWEN: Nawr dy fod yn gofyn, 'rwy'n gweld na allit. Ond paid â dweud fod hynny'n gwneud gwahaniaeth.

MORFUDD: Na; ni fuasai wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Ni all *dim* wneud gwahaniaeth, Owen.

Mae'r peth yn amhosibl. Fe wyddost yn iawn bod Gwilym a minnau wedi bod yn mynd gyda'n gilydd ers amser.

OWEN: Ond . . ond . . beth am y fusnes yna neithiwr?

MORFUDD: 'Dydy hynny'n newid dim ar bethau.

OWEN: Morfudd! 'Fedri di ddim edrych ar Gwilym yr un peth eto?

MORFUDD: Pam? Nawr yr oeddit yn dweud na wnâi ddim gwahaniaeth i Hopkins a'i wraig.

OWEN: Ond mae nhw'n wahanol. 'Fyddi di yn fodlon ar hanner Gwilym?

MORFUDD: Fe fydd yn rhaid i mi fod, os na chaf i e i gyd.

OWEN: Beth wyt ti'n feddwl?

MORFUDD: Mae yna un rheswm digonol pam na allaf dy briodi di na neb arall ond Gwilym. A oes cisiau i mi ddweud rhagor wrthyt?

OWEN: 'Dwyt ti ddim yn golygu . . ?

MORFUDD: Ydw; dyna beth yr wyf yn ei olygu.

OWEN: Ond, Morfudd . .

MORFUDD (*yn croesi at y lle tân*): Dyna drueni na fuasit yn gwybod yng nghynt, cyn i ti fynd i'r drafferth o gynnig dy hunan i mi, yntê?

OWEN (*yn ei dilyn*): 'Does gen ti ddim hawl i ddweud peth fel'na.

MORFUDD: 'Elli di fy meio i nawr am fod mor siŵr?

OWEN: Ond 'dydy hyn ddim yn rhoi'r un rheidrwydd arnat i'w briodi, a thithau'n gwybod yn

awr sut beth yw e. Clymu dy hun i oes o anhapus-rwydd oherwydd yr hyn y mae'r byd yn feddwl ohonot ti!

MORFUDD: Beth arall a allaf i wneud?

OWEN: 'Gredi di fi pan ddweda' i nad yw hyn yn gwneud dim gwahaniaeth i mi?

MORFUDD: Paid â siarad fel ffwl.

OWEN: Dere ar f'ôl i i Lundain; 'ddaw neb i wybod dim. Gallwn briodi ar unwaith. 'Wyt ti'n meddwl fy mod i'n hidio'r un gronyn beth mae neb yn feddwl?

MORFUDD (*yn dechrau colli ei hunan-lywodraeth*): O, beth allaf i ddweud i'th gael i weld synnwyr? 'Does gen ti'r un syniad am beth yr wyt yn sôn amdano.

OWEN: Morfudd, 'rwy'n golygu beth yr wy'n ei ddweud.

MORFUDD (*yn codi'i llais eto*): 'Elli di ddim sylweddoli bod dy holl siarad yn gwneud pethau'n galetach i mi?

OWEN: Morfudd!

MORFUDD: 'Fuost ti erioed fel neb arall—'rwyt am i mi fyw drwy f'oes gyda'm heuogrwydd, a thithau a rhyw olwg hunan-aberthol ar dy wyneb. . .

OWEN: Morfudd. . .

MORFUDD: Rhywun a dosturiaist wrthi! Dim ond dy hunan-falchter sy'n gwneud i ti ddweud hyn oll. 'Rwyt yn meddwl dy fod yn well na phawb arall, a hwn yn gyfle i ti ddangos dy oruch-afiaeth.

OWEN: Paid â chynhyrfu dy hunan. . . 'Wnes i ddim. . .

MORFUDD: Fe wnaethost ddigon. Edrych arna' i fel rhywun sy'n wrthrych tosturi—rhywun i'w hachub! A thithau . . a thithau . . (*Yn mynd at y burdd ac eistedd.*)

OWEN: Morfudd, gwranddo. Fe wyddost . .

MORFUDD (*yn torri i lawr yn llwyr ac yn wylo*): Fel pe na bai gen i ddigon i'w ddiodeff heb hyn. (*Ennyd: ni chlywir ond ei wylo.*) A ei di nawr, Owen?

(*Cydia OWEN yn ei gap, ac heb ddweud gair nac edrych arni, â at y drws. Pan fo bron yno, daw GWILYM i mewn. Ni eill OWEN na MORFUDD ddweud gair am ychydig, a rhaid i GWILYM ddal i siarad. Cyfyd MORFUDD.*)

GWILYM: Hylo! Wedi dod yma i gydymdeimlo, ai e?—neu i farnu? Owen yn pregethu, a Morfudd yn porthi! (*OWEN yn symud at y drws.*) Paid â mynd, fachgen, nawr, wedi i mi ddod yma—cyfle ardderchog i ti roi pregeth ar foesoldeb. Fe fyddai hynny'n well gen i na chael dy gydymdeimlad.

OWEN: Os nad yw'n wahaniaeth gennynt, Gwilym, 'rwyf am fynd.

GWILYM: Wel, wel! 'Does gen ti ddim i'w ddweud! Dyma'r tro cyntaf yn f'oes i mi wybod amdanat heb ryw berl o ddoethineb i'w daflu allan. Ond paid â rhedeg bant fel yna. 'Does neb wedi dweud gair wrthyf i yr holl brynhawn yma, dim ond edrych arna' i fel petawn i'r dyn a'r baich

drain o'r lleuad. Pan welais i di yma 'rown yn teimlo'n siŵr y clywn i lais rhywun o'r diwedd.

MORFUDD: Cerdd, Owen.

(GWILYM yn edrych ar y ddau, ac OWEN yn ei basio heb ddweud gair. Ennyd lletchwith.

GWILYM heb wybod sut i doddi'r îâ, a MORFUDD yn benderfynol mai ef sydd i siarad gyntaf.)

GWILYM (o'r diwedd): A gredet ti fi petawn i'n dweud ei bod yn ddrwg gennyf am neithiwr? (Ennyd: dim ateb.) A oes gennyf tithau ddim i'w ddweud?

MORFUDD: Beth wyt yn ei ddisgwyl i mi ddweud?

GWILYM: O! 'rwy'n gwybod i mi actio fel *cad*; ond beth dâl dweud hynny nawr? Ond 'doedd dim hawl gennyf tithau i ddod ar ein traws fel y gwnaethost.

MORFUDD: 'Rown yn meddwl fy mod wedi dweud wrthyt pa hawl oedd gennyf. Mae'r dyfodol yn ddisglair, onid yw? Ti yn y carchar, a minnau . .

GWILYM: O, 'rwy'n gwybod bod pethau mewn mès.

MORFUDD: Mae 'nhad yn dod yma yn y man. Dyna pam yr oeddwn am dy weld di cyn daw e yma.

GWILYM: Morfudd, a oes eisiau i mi ddweud wrthyt y byddaf yn fwy balch na dim os priodi di fi?

MORFUDD: A minnau i fod yn wraig i ddyn sy'n mynd i gael carchar am ddwyn?

GWILYM: Wel, beth wyt ti am i mi wneud?

MORFUDD: Peidio ag edrych arna' i fel petai'n gas gennyf fy ngolwg.

GWILYM: 'Dydy hynny ddim yn wir, Morfudd.

MORFUDD: 'Doedd fawr o werth yn yr addunedau a wnaethost, oedd e? 'Roedd popeth yn edrych mor hyfryd pryd hynny . . a nawr . .

GWILYM: 'Dwyt ti damaid gwell o edliw'r gorffiennol. 'Rwyf wedi dweud y gwnaf bopeth yn fy ngallu i'th helpu. Ond beth allaf ei wneud?

MORFUDD: Gelli ddweud dy fod yn fy ngharu o hyd.

GWILYM: A phetawn yn dweud hynny, fe droiset arna' i a dweud nad wyt yn fy nghredu. Pam na wynebi di ffeithiau?

MORFUDD: Dyna beth yr wy'n geisio ei wneud. A'r ffaith fwyaf yw honno a ddysgais i neithiwr—dy fod wedi gorffen fy ngharu.

GWILYM (yn mynd ati a chydio yn ei hysgwyddau ac yn siarad yn ei lais mwyaf atdyniadol): Lol! . .

Fe wyddost fy mod yn dy garu o hyd. Fe ddaeth rhywbeth drosaf y pythefnos diwethaf yma—rhywbeth na feddyliais oedd yn bosibl. Ond nawr, wedi dy gael di'n ôl unwaith eto, 'rwy'n teimlo'n rhywun arall. 'Elli di ddim dychmygu-beth a fûm-drwyddo, a neb, neb yn fodlon cymryd fy rhan.

MORFUDD: A beth os daw'r un peth ar dy draws di eto, yr un peth ag o'r blaen?

GWILYM: Na ddaw, Morfudd, os gwn i dy fod di wrth fy nghefn.

MORFUDD: Beth am Agnes Hopkins?

GWILYM: 'Dyw Agnes Hopkins yn neb. Fe welais gyfle i geisio achub fy hunan, ac fe gollais fy mhen. . .

MORFUDD: O! fel yr hoffwn dy gredu.

GWILYM: A wyt ti ddim yn fy nghredu?

MORFUDD: 'Dydw i ddim yn siŵr beth a allaf gredu eto ar ôl neithiwr.

GWILYM: Ond mae neithiwr drosodd. Cwyd dy galon, Morfudd. . . (*Clywir lleisiau y tu allan.*)
Dyma mam yn dod, a rhywun gyda hi.

(*Daw MARI i mewn, yn cael ei dilyn gan*

HOWELLS ac IFAN.)

MARI: Dewch i mewn, Howells. Mae Morfudd yma o hyd, a Gwilym gyda hi. (*Edrych fel petai wedi derbyn newydd a wasgodd bob gobaith allan ohoni.*) 'Rown i'n meddwl nad oedd yn bosibl i gario rhagor o ofidiau. A pham y mae'n rhaid i rieni gario gofidiau eu plant, 'wn i ddim.

(*Yn ystod y dialog canlynol, â MORFUDD i eistedd ar y sofa, GWILYM i sefyll yn agos ati, HOWELLS i eistedd wrth y burdd, MARI i sefyll ger y lle tân, ac IFAN yn y cefn yn rhywle.*)

GWILYM: 'Rwy'n fodlon sefyll y cwbl fy hunan, mam.

MARI: A beth am Morfudd, druan?

MORFUDD: Mae Gwilym a minnau'n deall ein gilydd, Mrs. Hughes. 'Rwy'n fodlon sefyll wrth ei ochr e. A ydych chi ddim yn meddwl y dylech adael i mi a Gwilym wneud yr hyn sydd orau?

MARI: Pan fyddi di wedi cael cymaint o brofiad

o ddyinion â mi, Morfudd fach, fe fyddi'n gwybod bod yn rhaid i rywun eu helpu rownd i bob cornel a thros bob camfa. Ond os wyt ti'n teimlo fel yna, 'does dim rhagor i'w ddweud.

IFAN: Dim rhagor i'w ddweud! Y mae gen i fel penteulu rywbeth i'w ddweud.

MARI: Ifan, bydd di'n ddistaw er mwyn popeth.

IFAN: Y fi yw pen y teulu yma, ac mae'n ddyletswydd arna' i . .

MARI: Mae gennyt ddigon o ddyletswyddau eraill petait yn chwilio amdanynt. Yr unig beth sy'n bwysig yn awr yw beth ydym yn mynd i'w wneud.

GWILYM: Mae Morfudd a minnau'n mynd i briodi.

MARI: Ac ar beth wyt ti'n mynd i fyw wedyn? A wyt ti'n meddwl y bydd job yn dy ddisgwyl? *adref o'r fawr*

GWILYM: Wel, 'dydyn ni ddim gwell o fynd i gwrrd â hynny nawr. Mae ddoe drosodd. Rhaid i mi dalu amdano, ac wedyn fe allaf i a Morfudd ddechrau byd o'r newydd.

HOWELLS: Mrs. Hughes, a gaf i orffen yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud wrthy ch . . ?

MARI: Y dyn ofnadwy, 'does genny ch chi ddim arall, 'does bosib'.

HOWELLS: 'Dyw'r holl drwbwl ddim mor dywyll ag yr ydych yn ei liwio. Os yw Gwilym yn mynd i fod yn fab-yng-nghyfraith i mi, mi wna fy ngorau drosto. Ac y mae yna ffordd allan o'r holl drwbwl yma, ond i mi gael eich cydweithrediad chi oll.

MARI: A ydych chi'n meddwl na fyddwn ni ddim yn fodlon gwneud ein heithaf?

HOWELLS: Fe fûm yn gweld Hopkins y prynhawn yma.

GWILYM: ~~I ymbil ar fy rhan i, mae'n debyg. Fe allech safio'ch anadl.~~

HOWELLS: 'Roedd e'n rhesymol dros ben. Mae e'n fodlon cymryd Gwilym yn ôl, ymbil ar ei ran yn y llys a'i gael yn rhydd gan mai dyma'i drosedd cyntaf, anghofio popeth a ddigwyddodd ar un amod. Ar un amod. A dyna lle y mae'n rhaid i chi, Mrs. Hughes, i helpu.

GWILYM: A beth yw'r amod?

HOWELLS: Bod Enoc Jenkins yn seinio'r weithred i werthu'r cae yna i'r *syndicate* ar unwaith.

GWILYM: Mae gennych obaith!

HOWELLS: Wel, dyna'r unig obaith sydd.

MARI: A ydy e wedi rhoi addewid pendant?

HOWELLS: Ydy.

MARI: Yna, y mae'n rhaid i 'nhad wneud hyn. Fe wnaif iddo. Os oes cyfle i ddod o'r holl drybini trwy werthu'r hen gae, fe wnaif iddo weld ei ddyletswydd.

IFAN: ~~Oni ddwedodd e'n bendant neithiwr? 'Lwyddi di byth, Mari fach.~~

MARI: Mae pethau wedi newid oddi ar neithiwr. (*Â at y drws.*) 'Rwy'n mynd i'w alw i'r tŷ, a chofiwch, gadewch y cyfan i mi. (*Â allan, a chlywir hi'n gweiddi.*) 'NHAD, 'NHAD. (*Ni chlywir yr ateb.*) RHOWCH LONYDD I'R PEAS YNA I

DYFU AM DIPYN, A DEWCH I'R Tŷ. MAE YMA EICH EISIAU. (*Daw yn ôl.*)

GWILYM: 'Fyddwch chi damaid gwell, mam.

MARI: Fe gawn ni weld. A chofia, paid â dweud gair rhyngom. Gad i mi siarad ag ef. Mae ganddo dipyn o olwg arnat ti a Morfudd.

HOWELLS: Efallai y byddai'n well i Morfudd a minnau fynd.

MARI: Na; 'rwyf am i chi fod yma i gyd.

HOWELLS: Ond 'rydw i wedi siarad ag ef ddwy waith o'r blaen ar y mater yma.

MARI: Na hidiwch; fi fydd yn siarad yn awr.

(*Clywir yr hen ŵr yn dod i mewn.*)

ENOC (*o'r drws*): Beth sy' yma nawr? Pwyllgor Gwaith? Eisiau cadeirydd ydych chi? Sut ych chi, Howells? Mae'n ddiwrnod braf, on'd yw hi? Mae'r *peas* yna'n tyfu am eu bywydau. Ac yr wyt ti, Morfudd, yma hefyd.

MARI: Dewch ymlaen yma, 'nhad. Eisteddwch.

ENOC: Pam ych chi'n edrych fel lot o ieir yng nghanol glaw ar y prynhawn braf yma?

MARI: 'Ydych chi'n disgwyl i ni edrych fel arall, a chithau'n gwybod yr helynt yr ydym ynddo? A nawr y mae rhagor o ofidiau eto.

ENOC: Wel, 'rwyf yn ddigon cyfarwydd â nhw erbyn hyn, Mari. 'Wna un neu ddau arall fawr o wahaniaeth.

MARI: Rhaid i chi fod o ddifri, 'nhad; ni ddaw yr un lles o siarad yn fflipant fel'na.

Beth
byrnod
ENOC: 'Ddaw yr un lles o dynnu wyneb hir
chwaith. Beth sy'n dy flino di nawr?

MARI: Mae'n rhaid i Gwilym a Morfudd briodi
cynted ag sy'n bosibl.

ENOC: Fe wna wraig burion iddo fe, oni wnei
di, Morfudd?

MARI: 'Nhad, rhaid i chi wrando o ddifrif.

ENOC: Ond 'rydw i o ddifri. Nid nhw yw'r
ddau gyntaf yn y pentre yma i briodi dan reidrwydd
fel yna. Beth sy'n bod?

MARI: A ydych chi ddim yn sylweddoli? Sut
gall Gwilym briodi ac yntau, efallai, yn gorfod
mynd i'r carchar?

ENOC: Wel, 'allaf i ddim mynd yno yn ei le.

MARI: Na; ond y mae yn eich gallu i'w achub
rhag unrhyw gosb. Mae Mr. Howells wedi gweld
Hopkins. . .

ENOC: Ie! 'Rown i'n dechrau dyfalu pryd oedd
enw Hopkins yn mynd i ddod i mewn. . .

MARI: 'Nhad, 'wnewch chi wrando? Mae
Hopkins yn fodlon maddau'r cwbl i Gwilym a'i
gymryd yn ôl, os . . .

ENOC: Os caiff e'r cae yna. Fe gafodd fy ateb
neithiwr. Fe fyddai Hopkins yn fodlon aberthu ei
dad a'i fam a'i wraig a'i blant er mwyn cael y cae
yna. ~~A'r ffaith ei fod ef mor ofnadwy am ei gael
sy'n cryfhau fy mhenderfyniad.~~

MARI: A ydych chi'n credu bod gennych hawl i
wrthod i'r ddau hyn yr ollyngdod sydd yn eu
gafael?

ENOC: ~~A'r pris, Mari! Y pris!~~

MARI: ~~Pa-wahaniaeth am y pris?~~

ENOC: A wyddost ti beth fyddai'r pris i mi? Fi,
a roddwyd yn ymddiriedolwr ar y cae hwn dros y
capel? Na; 'fedri di ddim sylweddoli. 'Rwyd yn
gofyn i mi roi i mewn i'r pwerau a ddaeth â'r holl
ofid yma i'r tŷ hwn—i werthu popeth a ddaliaf yn
gysegredig.

MARI: A beth amdanaf innau? A ydych ddim
yn meddwl bod arnoch beth pwyth i mi sydd wedi
slafio i gadw aelwyd i chi i gyd man hyn.

ENOC: Mae gennyf ddigon o gydymdeimlad â
thi, Mari.

(MORFUDD yn sydyn yn mynd at ENOC, ac ar
ei gliniau yn ei ymyl.)

MORFUDD: Enoc Jenkins, a ydych yn credu bod
gennych yr hawl i aberthu dyfodol Gwilym a
minnau?

ENOC: 'Dydw i ddim am wneud hynny.

MORFUDD: Ond dyna beth yr ydych yn ei wneud.
Nyni fydd yn gorfod dioddef, ac nid chwyhwi.

ENOC: Fe fyddwn yn falch i ddioddef trosoch,
pe gallwn, Morfudd.

MORFUDD: Ond, 'ellwch chi ddim—ni all neb
ddioddef trosom. Arnom ni yr ydych yn taflu'r
baich i gyd. 'Rwy'n ymbil arnoch am hapusrwydd.

ENOC: Chwi eich hunain biau hwnnw, Morfudd.
Ni all neb roi hwnnw i chi—yn eich dwylo chi v
mae eich dyfodol.

MORFUDD: Ond 'rydych yn gwrthod siawns i ni ddechrau byw yn hapus—yn gwrthod pob cyfle i ni.

ENOC: Nid yn fy nwylo i . .

MORFUDD: Y *mae* yn eich dwylo chi. Un gair oddi wrthy, ac fe gawn y cyfle.

ENOC: 'Rwyt yn daer iawn, Morfudd.

MORFUDD: A oes gen i ddim rheswm dros fod yn daer? Eich pobl chi, pobl y capel, y bobl yr ydych yn ymladd trostynt, a fydd yn pentyrru gwarth ar fy mhen. A ydych ddim yn credu ei bod yn ddyletswydd arnoch i'm hachub rhagddynt, ~~ar~~ cyfle yn eich dwylo?

ENOC: ~~Dy~~ achub . .

MORFUDD: ~~Ie~~; rhoi cyfle i ni, y ~~cyfle~~ a gawsoch chi, cyfle y mae pawb arall yn ei gael.

ENOC: Ond, Morfudd fach . .

MORFUDD: Mae'n rhaid i chi wneud hyn, Enoc Jenkins. Mae yn eich gallu i ddistrywio neu achub ein dyfodol; chwi sydd â'r dewis.

ENOC: Ond mae'n golygu . .

MORFUDD: Pa waeth beth y mae'n ei olygu? Meddyliwch beth y mae'n ei olygu i ni. 'Does gennyh chi mo'r hawl, wedi byw eich bywyd, i wrthod yr un cyfle i Gwilym a minnau—i aberthu ni'n dau oherwydd rhywbeth a fu. Dyma'r unig gyfle a gawn i wneud rhywbeth o'n bywyd, ac yr ydych yn ei wrthod i ni. 'Rwy'n ymbil arnoch i'w estyn i ni cyn ei bod yn rhy ddiweddar.

ENOC: Ni feddyliais i erioed . .

MORFUDD: ENOC Jenkins, a ydych chi'n credu y gallasech chi edrych yn fy llygaid os caiff Gwilym garchar a minnau'n destun gwawd a thosturi, a dweud i chwi wneud yn iawn?

ENOC: Paid, Morfudd, paid . .

MORFUDD: 'Ydych chi'n credu y gallasech chi?

ENOC: Na, Morfudd, na. (*Ennyd.*) 'Allswn i ddim. 'Rwy'n sicr o hynny. Mae'r dewis hwn yn ormod i mi. (*Cyfyd yn araf.*) Howells, dwedwch wrth Hopkins y caiff e'r cae yna, ac ar yr un pryd prynwch â thipyn o'r arian a gewch amdano, faner a'r gair "ICHABOD" arni, a hoeliwch hi uwchben drws y capel.

(*Syrth y LLEN yn araf.*)

[*Gorau i gyd po leiaf o amser a fydd rhwng diwedd Golygfa 1 a dechrau Golygfa 2. Y mae munud yn eithaf digon i wneud y cyfnewidiadau angenrheidiol.*]

Celwydd noeth yw dweud ei fod yn gwpan sy'n cysuro.

ENOC: 'Dwyt ti ddim yn meddwl ei bod yn well i ti fynd adre?

OWEN: Nawr, tadcu, rhaid i chi beidio â cheisio fy nhroi oddi wrth fy neges. Fe awn yn ôl at y gosodiad cyntaf. I golledigaeth, neu, i ddefnyddio gair y Bardd Cwsg, i ddiawl â holl fenywod y greadigaeth! Yr holl ryw fenywaidd! 'Rwy'n gwybod nawr beth yw eu pwrpas yn y byd yma, a'r unig gwestiwn yr wyf heb ei setlo yw, pam yn enw popeth na thagodd Adda yr hen fenyw ei wraig pan ddaeth hi â'r afal hwnnw iddo. A'm theori i yw . .

ENOC: Fe fydd yn well gen i glywed dy theori di pan fyddi wedi sobri tipyn.

OWEN: Ond 'rwy'n gweld popeth yn glir heno; efallai na fyddaf i ddim yfory. A pheth arall—'fydda i ddim yma yfory. (*Yn canu.*)

“'Rwy'n mynd i wlad y Saeson
A 'nghalon fel y plwm . . .”

ENOC: Bydd distaw, fachgen! A wyt ti am i'r holl stryd i'th glywed?

OWEN: Felly, 'chewch chi ddim cyfle i glywed fy theories i ragor.

ENOC: 'Fydd hynny fawr o golled i mi, am wn i.

OWEN: Fe fyddwch chi wedi newid eich cân cyn bo hir. Fe fyddwch yn dyheu am ddal pen rheswm â mi cyn pen mis. 'Wyddoch chi beth ydym ni'n dau?

ACT III

GOLYGFA 2

Pan gyfyd y llen, y mae ENOC yn eistedd yn ben-isel wrth y tân, fel rhywun sy'n cael gweledigaethau annymunol yn y fflamau. Yn sydyn egyr y drws, a daw OWEN i mewn. Rhaid cofio nad yw yn feddw, ond dengys ei leferydd a'i osgo ei fod i raddau dan ddylanwad y ddiod.

OWEN (*o'r drws*): Tadcu, i golledigaeth â holl fenywod y cread i gyd! Chi'n clywed?

ENOC: Bachgen, beth sy'n bod arnat ti? 'Rwyf yn feddw chwîl.

OWEN: Na; i fod yn hollol gywir, 'fyddwn i ddim yn dweud fy mod yn feddw chwîl—yn feddw yn unig, neu fel y maent yn dweud mewn llysoedd barn, *under the influence.*

ENOC: Ond beth gododd arnat ti? 'Wyddwn i ddim dy fod . . . 'welais i erioed ohonot ti o'r blaen . .

OWEN: Tadcu, efallai eich bod chi'n gwybod, ond os nad ydych chi, peidiwch â chredu rhagor o'r bobol yna sy'n dweud bod alcohol yn cysuro dyn. Dyma fi'n dweud wrthyich, nawr—yn dyst byw, neu'n adfyw beth bynnag—'dyw e ddim. Fe euthum i geisio boddi 'ngofidiau am y tro cyntaf yn f'oes; a methiant, methiant ofnadwy oedd y cyfan.

ENOC: Fe wn beth i'th alw di heno.

OWEN: *Relics—relics* ydym ni. *Relics* o rywbeth a fu ac na fydd mwyach. 'Rych chi wedi byw yn rhy hen—wedi gor-oesi'ch cenhedlaeth, a'ch byd wedi ymddatod o'ch cwmpas. A minnau—'wyddoch chi beth yw fy theori amdanaf fy hun? Eu bod yn y lle yna y maent yn ein paratoi i ddod i'r byd yma . . . chi'n gwybod, lle maen' nhw'n rhoi *doses* o synnwyr cyffredin i bawb, a rhyw fesur bach o dalentau i hwn a'r llall—eu bod yn y lle hwnnw, ble bynnag y mae, wedi fy rhoi ar y silff ar ôl gorffen â mi, ac iddynt anghofio popeth amdanaf am hanner can mlynedd; a phan ddaethant ar fy nhraws yn ystod rhyw *spring-cleaning* ofnadwy, tynasant dipyn o'r dwst oddi arnaf a danfonasant fi i'r byd hanner can mlynedd ar ôl fy oes.

ENOC: A dyna a barodd iti fynd i'r dafarn heno?

OWEN: Nawr, tadcu, peidiwch ag harpio ar hynna o hyd. Dyma'r tro cyntaf, a 'dyw'r profiad ddim yn ddigon melys i feddwl am dro arall. I ddod yn ôl at eich cwestiwn; nage, nid dyna a achosodd imi fynd i chwilio cysur trwy edrych ar y gwin coch. Yr un peth a barodd i mi fynd ag a wnaeth i chi werthu'ch egwyddorion y p'nawn yma—menywod, tadcu, menywod! Y rhyw a gynrychiolir gan Jael a Deleila a Jezebel—i enwi dim ond tair.

ENOC: A fu rhywun yn ceisio bwrw hoelen i'th ben di neu yn ceisio torri dy wallt heno?

OWEN: Fe dorwyd eich gwallt chi y p'nawn yma, mor sicr ag yr eilliwyd Samson druan gan

Deleila 'slawer dydd. Y chi, yr olaf o amddiffynwyr y cwm yma rhag y llif-ddyfroedd sy'n esgyn trwyddo, ac fe ddifawyd eich holl nerth mewn amrantiad. Un ergyd â'r siswrn (*yn gwneud ystum*) ac yr oeddech mor ddiymadferth â'r eiddilaf ohonom. Cilasoch o'r ornest gan adael y maes yn rhydd i Hopkins a'i epil . . .

ENOC: Dod yma i ddweud fy nyletswydd wrthyf a wnaethost?

OWEN: Nage. Dod yma i gydymdeimlo—fel un relic at relic arall; y chi ar eich ffordd i wlad well, ni a obeithiwn, a minnau ar fin ymadael i wlad sy'n llifeirio o bopeth ond llaeth a mêl.

ENOC: Y lle gorau i ti i fynd iddo yn awr yw adre ac i'r gwely.

OWEN: 'Dydych chi ddim am glywed y gwir, tadcu; dyna beth sy'n bod arnoch chi. Fel pawb arall, y mae'n well gennych weniath na gwirionedd plaen.

ENOC: 'Rwy'n gwybod y gwir cystal â thithau.

OWEN: Ydych, ond 'roech yn gobeithio nad oedd neb arall yn ei wybod.

ENOC: Edrych yma; gyda'th holl siarad, a rodd-aist ti unrhyw help i mi?

OWEN: Naddo, naddo; mi wn. 'Dallech chi ddim disgwyl hynny. 'Ofynsoch chi ddim am help.

ENOC: Ac felly, y cwbl sydd gennyf i'w wneud yw clochdran.

OWEN: Ond—a dyma oeddwn am ddweud os ydych wedi gorffen fy nghyffelybu i geiliog—'dydw

i ddim mor hoff o stramantiau'r genhedlaeth sy'n trigo yn y cwm yma nawr ag i fod yn ddall i'w ffaeleddau.

ENOC: Canys p'run mor ddall wyt ti i'th ffaeleddau dy hunan.

OWEN: Dyna hi, ceisiwch fy nhynnu oddi wrth fy mhwynt eto. Dyna'r gwaethaf ohonoch chi heno —'wnewch chi ddim sticio at y pwynt. Y gwir yw . .

ENOC: Y gwir yw dy fod yn disgwyl i mi wneud yr hyn a ddylit ti a'th sort wneud. Nid fy ngwaith i yw edrych ar ôl trigolion y lle yma.

OWEN: Nage, ond 'roedd yn eich gallu i roi spogen yn whîl Hopkins a'r criw y mae'n ei gynrychioli, y criw sy'n pesgi ar y dirwasgiad ac wedi dysgu digon o seicoleg i fedru manteisio ar sefyllfa meddyliau'r bobl yma sy'n dioddef. Ac fe roisoch i mewn iddynt, tadcu, oherwydd bod un o'r rhyw fenywaidd wedi troi ei llygad arnoch; rhoisoch ffordd oherwydd eich bod fel pawb arall yn methu gwrthsefyll apêl sentiment; oherwydd eich bod fel finnau—fel finnau, cofiwch; 'dydw i ddim yn fy rhoi fy hunan yn wahanol i chi yn hyn o beth—oherwydd eich bod, fel finnau, wedi dod o dan ddylanwad y pwer cryfaf yn y byd yma—y pwer a roddwyd yn nwylo Efa a phawb o'i rhyw.

ENOC: A ph'run ohonynt a roddodd saeth o dan dy groen di heddiw?

OWEN: Yr un un ag a roddodd follt o dan eich seiliau chi. Yn hollol fel y dymchwelwyd eich

caerau chi i gyd, fe ddymchwelwyd fy holl syniadau innau.

ENOC: Fe wnaiff les i ti, mae'n debyg, pan fyddi wedi sobri tipyn.

OWEN: A dyna paham yr wy'n dweud mai relics ydym ni ein dau—dau yn methu dygymod â'r tro a ddaeth ar fyd yn y cwm yma, a dau sydd oherwydd yr un achos wedi cwrdd â'u Waterloo heddiw.

ENOC: Ac fe aethost i chwilio cysur yn y Belle Vue. . .

OWEN: A chithau wrth edrych i'r tân. A thu allan mae miri mawr; bydd palas i Foloch yn codi ei ben y dyddiau nesaf yma yn eich gŵydd bob dydd, a chithau yn hollol ddiymadferth, wedi'ch llorio gan lygad glas—yr un llygad a'm lloriodd innau. 'Ydych chi'n fy meio am fynd i chwilio cysur heno?

ENOC: Cerdd adre nawr yn ddistaw, a cheisia fynd i'r gwely heb i'th fam dy weld.

(Daw MARI i mewn o'r chwith, a dillad gwaith IFAN ganddi.)

MARI: 'Rwyt ti, Owen, yma eto, 'wyt ti? A orffennaist ti bacio?

OWEN: Do, modryb. Mae'r *evening suits* a'r crysau starts a'r *dressing gowns* a'r *silk pyjamas* wedi'u pacio'n deidi, ac y mae mam wrthi'n galed yn cyweirio'r tyllau mwyaf yn fy sanau.

MARI: Beth sy'n bod arnat ti heno? Mae rhyw olwg wyllt yn dy lygaid.

OWEN: Mynd i Lundain, modryb! Lle mae'r strydoedd wedi'u palmantu ag aur! A glywsoch chi sôn am Dic Whittington a'r cwrcath hwnnw a gwrddodd e ar yr hewl i Lundain? Naddo, mae'n debyg. 'Ydych chi'n meddwl y gwêl rhywun yn y lle yma fy eisiau?

MARI: Wel, mae'n rhaid cyfaddef fe fydd yn rhyfedd heb dy holl siarad diddiwedd. 'Rwyf wedi bod yn tynnu dillad gwaith Ifan allan eto. Mae'n anodd credu ei fod yn mynd i ddechrau gweithio yr wythnos nesaf. 'Rwy'n gorfod dweud wrthyf fy hunan o hyd, "Mae'n eithaf gwir, mae'n eithaf gwir." Fe ddwedodd Hopkins y byddai gwaith yn dechrau fore Llun, ac fe gaf weld Ifan yn mynd at ei waith yn y bore unwaith eto, diolch i'r annwyl!

(Daw IFAN a WAT i mewn; y mae mwy o fywyd yn IFAN nag a fu drwy'r holl chwarae.)

IFAN: Mari, dyma dy watch di.

MARI: Y gallu tragwyddol! A doddaist ti galon garreg Cohen? 'Dyw amser gwyrthiau ddim wedi pasio!

IFAN: 'Roedd yr holl helynt a'r ffys a fu yma heddiw wedi achosi i mi anghofio'n llwyr bod gennyf hanner coron ar geffyl y p'nawn yma—40 to 1—a fe ddaeth i mewn! Daeth i mewn, ar fencos i —40 to 1!

OWEN (*sotto voce*): Rhagluniaeth Fawr y Nef . .

IFAN: Ac fe roddodd Wat fenthyg y gweddill imi gael y watch i ti. 'Rown am ei chael i ti heno, Mari.

WAT: Wel, 'dallwn i ddim pallu'n dda iawn; fe

M. Rwy'n chlywed dy fod ti Wat wedi mynd
dy 106 herbia
W. Ydych chi'n meddwl y gwêl rhywun yn y lle yma fy eisiau?

wnes i swm bach go lew fy hunan ar y ceffyl yna, a chyda Gwilym y cefais i'r tip.

IFAN: Nawr, Mari, dim rhagor o sŵn. Rho'r watch yn ddiogel. 'Rydym wedi dod allan o'r helynt hwn eto er gwaethaf popeth, ac yn ben ar y cwbl byddaf yn gweithio ddydd Llun, a thipyn o docins yn fy mhoced unwaith eto. A chofia, Mari, 'does dim gwenwyno i fod os byddaf i'n rhoi ambell swilt ar gi wedyn.

MARI: 'Wyt ti, Wat, yn cael gwaith hefyd?

WAT: Fi! Fi'n gweithio, myn hyfryd i! Dim thenciw. 'Rwy wedi dysgu gwell ffordd i wneud arian na thrwy chwysu. Fe ddof i i ben yn burion heb waith o hyn allan, a phan gawn ni'r trac newydd yma, fe fyddaf i'n dreifio ar hyd y lle mewn motor-car; byddaf 'na chyffwr' i; ac nid rhyw *car* damaid o Austin Seven fydd e chwaith.

ail-law (Egyr y drws, a daw MORFUDD a GWILYM i mewn.)

MORFUDD (*yn wyllt iawn*): 'Rydym wedi bod yn chwilio am dŷ; mae Fairy Glen, chi'n gwybod, y tŷ newydd yna ar dop y rhiw, yn dod yn rhydd yr wythnos nesaf. Fe fu 'nhad yn siarad â'r perchen, ac fe allwn ei gael.

MARI: 'Fydd e ddim dipyn yn ddrud i chi?

GWILYM: Mae Hopkins wedi addaw codiad sylweddol i mi. . .

MORFUDD: Daeth ymlaen atom ar yr hewl heno, ac yr oedd yn syndod o neis. Fe fydd Gwilym yn iawn, 'rwy'n siŵr.

WAT: Byddi, byddi. Edrych di ar ôl dy "p's" a "q's" o hyn allan, ac fe fyddi di ar gefen dy geffyl gyda ffyrm Hopkins. Dim rhagor o figitian gyda'r Mrs. eto, cofia.

GWILYM: Edrychwch yma, Wat . .

WAT: Paid â cholli dy dymer, fachgen. Dim ond jôc oedd gen i. 'Down i'n meddwl dim. Fe clli gymryd jôc, oni elli?

MORFUDD: 'Doedd hi ddim yn jôc o chwaeth neis iawn, beth bynnag.

GWILYM: Rhaid i chi ddeall, Wat, nad ydw i ddim . .

MARI: Nawr, nawr, gadewch iddi fod. 'Rydym i gyd yn nabod Wat. Peidiwch â dechrau cwympo allan heno. Wedi'r holl drybini, mae'n nefoedd i gael bod yn hapus unwaith eto. . .

OWEN (*yn codi'n sydyn: sieryd a'i wyneb tuag at y gynulleidfa*): A mi a welais nefoedd newydd a daear newydd, canys yr hen bethau a aethant heibio. (*Try, cydia yn ei gap, ac allan yn syth.*)

(*Edrychant ar ei ôl mewn distawrwydd am ennyd.*)

MARI: 'Ddeallais i erioed mo'r bachgen yna.

WAT: Mae yna lawer un lot yn llai lloerig mewn *asylum*.

ENOC (*yn mwmian wrtho'i hun*): "Canys yr hen bethau a aethant heibio . . ."

A thra bo ef yn siarad, disgyn y